ECO'R WYDDFA

Rhif 131 RHAGFYR 1987 Pris 20c


## HYSBYSEBION

**"Rhifynnau'r Hysbysebion" yw'r rhifyn hwn a'r nesaf. Ynddynt mae gwŷr busnes y fro yn dymuno cyfarchion y gwyliau i ni, ddarllenwyr yr Eco, a'u cwsmeriaid gydol y flwyddyn. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am gefnogi'r Eco.**

## CYFARCHION Y TYMOR

**Bydd un rhifyn arall cyn y Nadolig. Daw allan o'r Wasg, Nos Iau Rhagfyr 17. Felly, ohebwyr pentrefi, deunydd i law ar nos Fawrth Rhagfyr 8, os gwelwch yn dda.**

# IE, HWYR – OND, PEDAIR BLYNEDD AR DDEG?




**Dim byd yn anarferol mewn cardiau post o wledydd tramor yn cyrraedd yn hwyr nag oes? Sawl tro y mae'r teithiwr wedi dychwelyd i'w ardal yn bell o flaen y cardiau a anfonodd.**

A stori debyg yw hon – ond arhoswch! Fel y gwelwch, ddarllenydd hoff, mae hwyr a hwyr.

Dyma lun o gerdyn post a anfonwyd o Blankenberge, gwlad Belg, sydd newydd gyrraedd pen ei daith ym Mro'r Eco.

Meddyliwch mewn difri! Cyrraedd rŵan, ac wedi ei anfon ers Gorffennaf 23, – pedwar mis o amser!

Ie .... Ond nid Gorffennaf 1987 y cafodd ei anfon – ond Gorffennaf 1973!

Dychmygwch y sioc a gafodd Mrs Atkinson, Cefn Gof, Caeathro pan gafodd wybod gan ei chwaer fod y cerdyn a anfonodd Shaun, mab Mrs Atkinson ati wedi cyrraedd. Bachgen ifanc yn yr ysgol oedd Shaun ar y pryd.




# PRIF WEITHREDWR GWYNEDD YN LLANRUG


**Yn dilyn cyflwyno papur dan y penawd 'Y Bygythiad i Lywodraeth Leol' i'r Cyngor Sir yn ddiweddar mae Mr Ioan Bowen Rees, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth Gyngor Cymuned Llanrug i drafod ymhellach ei gynnwys. Oherwydd oblygiadau'r adroddiad gwahoddwyd Cynghorau Cymuned bro'r Eco ynghyd â'r Cynghorwyr Dosbarth i'r cyfarfod ac edrychir ymlaen am noson o drafodaeth.**

**Mae'r Cyngor yn estyn gwahoddiad i bawb sydd â diddordeb yn sylwadau Mr Bowen Rees ar yr amryiwol faterion a gyfyd o'i bapur, megis y dreth y pen arfaethedig, ymyraeth ym myd addysg a'i honiad fod y Llywodraeth bresennol yn tanseilio democratiaeth.**

**Cynhelir y Cyfarfod yn festri Capel Mawr, Llanrug, Nos Wener 27ain Tachwedd am 7 o'r gloch dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Mrs Pat Larsen.**

# BRO'R BEIRDD A'R LLENORION

**Dyma luniau enillwyr prif wobrau yn adrannau llên eisteddfodau'r fro. Canlyniadau cyflawn yng ngholofnau'r pentrefi.**



*Mr Arfon Jones Rhosybol — enillydd y fedal lenyddol dan 25 oed Eisteddfod Deiniolen.*





*Alys Jones, Eryri, Bethel oedd prif lenor yr Eisteddfod 'bentref' eleni a Meinir Dauncy Williams, Tan-y-cae oedd y prif lenor ifanc. Dyma'r ddwy ysgrifwraig, gyda'r orsedd, yn arddagnos eu gwobrau sef llun a thlws.*

*A llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Hughes (chwith) Tŷ Mawr, Caeathro, prifardd dosbarthiadau 5 a 6 yn Eisteddfod Syr Hugh Owen. Ysgrifennodd ddwy gerdd ar y thema 'Aros'.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 131**
**RHAGFYR**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*
*Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth*
*Cymdeithas Gelfyddydau*
*Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI**: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

**GOLYGYDD CHWARAEON**: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

**DYDDIADUR Y MIS**: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**: Jonn Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL**: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

**CAEATHRO**: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG**: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

**LLANBERIS**: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

**LLANRUG**: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

**NANT PERIS**: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU RHAGFYR 17**
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
**RHAGFYR 8**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## PERYGLON "CYFNOD-RANNU" YN ARFON

Mae 'na gryn sôn wedi bod yn ddiweddar am "ddatblygiadau cyfnod-rannu". Y bwriad yw codi nifer o bentrefi gwyliau o ryw ddegau neu gannoedd o dai, efo siopau, cyfleusterau adloniant, ac yn y blaen. Gobaith y datblygwyr yw y bydd modd gwerthu yr hawl i ddefnyddio un o'r tai hyn tros gyfnod pendant yn ystod pob blwyddyn. Er enghraifft, buasai rhywun o Lerpwl yn medru prynu'r hawl i ddefnyddio tŷ mewn datblygiad dros bythefnos gyntaf Mehefin pob blwyddyn am 50 mlynedd. Gobaith arall y datblygwyr yw y bydd modd gwerthu pob uned dros cymaint o'r flwyddyn ag y bod modd.

Pe llwyddasai datblygiad o'r fath, dygasai bwysau anferth ar yr ardal o'i gwmpas. Golygai 150 uned wedi'i defnyddio gan dri o bobol dros 50 wythnos o'r flwyddyn ddwyn 22,500 ymwelydd y flwyddyn i un ardal fel Llarug neu Gaeathro. Gan y buasai pob gwasanaeth angenrheidiol ar y safle eisoes, cai'r ardal holl anfanteision y datblygiad, heb ddim manteision. Ymwelwyr newydd fuasai rhywfaint o'r prynwyr; ond efo'r Cyfandir mor rhad bellach, ni fuasai fawr ohonynt. Na, y tebyg yw mai dibynnu ar ddenu'r ymwelwyr sydd eisoes yn dod yma fuasai'r datblygiad "cyfnod-rannu". Efo perchnogion gwestai eisoes yn cael trafferth wrth lewni ystafelloedd, mae'n edrych yn fain iawn arnyn nhw os digwydd i'r "cyfnod-rannu" lwyddo.

"Os" go fawr yw honno. Un peth yw "Cyfnod rannu" yn Sbaen, lle bo haul gydol y flwyddyn. A fedrwch chi ddychmygu llenwi hanner dwsin o ddatblygiadau yn Arfon unrhywbryd rhwng Medi a Mehefin? Mae'r syniad yn un hurt, a'r tebyg yw na fydd i'r datblygiadau lwyddo. Beth fydd yn digwydd wedyn? Mae'n amlwg: eu troi'n gartrefi parhaol i bobl sydd eisiau symud yma i ymddeol, neu am deithio 'nôl a 'mlaen rhwng Arfon a'u gwaith yng nghaer neu Lerpwl – rhywbeth digon posib wedi cwblhau'r lôn newydd. Buasai angen caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd y datblygiad, ond digon hawdd fuasai cael hynny gan fwyafrif Cyngor Arfon, a haws fyth ei gael gan y Swyddfa Gymreig.

Mae tua hanner dwsin o gynlluniau ar y bri ar hyn o bryd ar gyfer "cyfnod-rannu" yn Arfon. Gan weld y peryg', cynigiodd rhai cynghorwyr na ddylid caniatáu datblygiadau o'r fath; ond 'roedd y mwyafrif am eu croesawu. Penderfynwyd yn hytrach y dylid eu caniatáu gyda nifer o amodau glastwraidd. Y rhai mwyaf pleidiol i "gyfnod-rannu" ac i unrhywbeth twristaidd) fuont fwyaf cefnogol i'r amodau hyn.

Llai nag awr yn ddiweddarach yn ystod yr un cyfarfod Pwyllgor Cynllunio, daeth cais gerbron am ddatblygiad yng Nghastellmai, Caeathro. Argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio oedd y dylid gwrthod y cais, gan ei fod yn groes i Gynllun Ardal Arfon Wledig, ac i'r amodau 'roedd y pwyllgor newydd gytuno arnynt. Ond fe ganiatawyd y cais. Chwalwyd yr amodau (a'r Cynllun Ardal) oherwydd fod mwyafrif y Pwyllgor Cynllunio (sef saith o blith 40 aelod y Cyngor Llawn) o'r farn bod rhaid caniatáu unrhyw ddatblygiad twristaidd, waeth be' fo'r canlyniadau, heb hitio ffeuan am na chymuned nac amyglchfyd na dim. A'r rhai mwyaf pleidiol i'r amodau awr ynghynt fuont fwyaf parod i'w chwalu wedyn. Mae'n amlwg nad oeddant erioed yn credu mewn gosod unrhyw amodau o gwbl: unig ddiben eu creu yn y lle cyntaf oedd cael gweddill y Cyngor i gytuno ag egwyddor "cyfnod-rannu".

Mae golwg ddu arni. Mae cynsail cynllunio wedi'i osod, ac arwydd eglur wedi'i rhoi fod croeso i bob "datrblygiad cyfnod-rannu" neu unrhyw gynllun arall o ddyfais pobl barus a diegwyddor. Dim ond un peth all rwystro gyrru'r hoelion hyn i arch yr Arfon Gymraeg, sef trwy i'r Cyngor llawn benderfynu gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio fel ag a wnaed yn achos Y Felinheli. Rhaid i'r hyn a ddigwyddodd yno ddigwydd yng Nghaeathro, Llanrug, ac unrhywle arall a fygythir, sef i'r bobl godi fel un gŵr yn erbyn y datblygu. Beth amdani, gynghorwyr cymuned, dosbarth, a sir? Beth amdani, arweinwyr cymdetihas? Mae'ch bro wedi syrthio ymysg lladron: a wnewch chi ei hachub? Dibynna popeth annwyl gennych ar eich ymateb buan a phendant.

Howard Huws, Cadeirydd Mudiad Adfer.

# 'CIP'

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*Llythyr atoch chi, rieni plant ysgolion cynradd yw hwn yn bennaf.*

*Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'n siŵr, daeth rhifyn olaf Cymru'r Plant a Deryn allan o'r wasg. Yn eu lle, mae Urdd Gobaith Cymru yn cyhoeddi cylchgrawn newydd sbon danlli. CIP fydd enw'r cylchgrawn a bydd y rhifyn cyntaf yn ymddangos ar Ragfyr 1af.*

*Beth am gymryd CIPolwg ar ei gynnwys? Bydd rhai o hen ffefrynau'r Deryn yn ymddangos ynddo e.e. Cadwgan a Mari Mwclis, a chaiff darllenwyr Cymru'r Plant barhau i wenu gyda Dant Melys y Llew!. Bydd storïau am gymeriad bach newydd o'r enw Glöyn — sydd yn byw mewn tegell ar waelod yr ardd — i'r plant ieuengaf, tra bydd awduron enwog fel Elfyn Pritchard, Irma Chilton, Selwyn Lloyd, Doreen Wynne, Elgan Davies ac eraill yn sgirfennu storïau anturus ac arswydus i'r plant hŷn!*

*Bydd ynddo hanesion a lluniau o fyd y sêr (chwaraeon, pop a theledu), ffeithiau diddorol, a chyfle i'r darllenwyr eu hunain i ddatrys problemau dyrys fydd yn wynebu'r ditectif C.I. Prys a'i bartner! Bydd y naturiaethwr Huw John Hughes yn rhoi CIPdrem ar fyd natur gyda dwy dudalen ddiddorol yn llawn lluniau, ffeithiau a chystadleuaeth bob mis.*

*Ac o sôn am gystadleuaeth — bydd dwy gystadleuaeth fawr yn CIP eleni. Bydd y cylchgrawn yn cael ei lansio gyda chystadleuaeth Tidli Wincs i holl ysgolion cynradd ac adrannau pentref, a'r 2 enillyddd yn y prawf terfynol yn derbyn gwerth £15 o ddillad chwaraeon. Yn y gystadleuaeth fawr arall bydd cyfle i ysgol o'r Gogledd ennill trip i Sŵ Bae Colwyn, ac ysgol o'r De i ennill trip i Sain Ffagan! Mae'r manylion i gyd yn CIP mis Rhagfyr.*

*Tipyn o ddirgelwch i ni fydd y ddwy dudalen Clecs Cip! Y plant eu hunain ŵyr am y 2 dudalen yma achos dyma'u cyfle i sgrifennu llythyrau i'r cylchgrawn, anfon lluniau a hanesion diddorol atom, ac os oes plentyn dewr yn eu mysg caiff le ar y dudalen yma.*

*Bydd CIP mis Rhagfyr yn rhifyn arbennig gyda phoster lliw o .......?0, anrheg, a 4 tudalen ychwanegol. Fel pob rhifyn arall o'r cylchgrawn bydd wyth tudalen llawn lliw ynddo a bydd yn costio 50 ceiniog bob mis.*

*Mae'n debyg erbyn hyn eich bod i gyd yn "awchus i ddarllen y cylchgrawn newydd" (fel dywedodd un bachgen bach wrthym mewn llythyr yn ddiweddar). Ond pa mor awchus bynnag ydych i weld y cylchgrawn gwych , lliwgar yma — cofiwch mai* **cylchgrawn i'ch plant** ydyw a hwy ddylai gael CIPolwg arno gyntaf! Gall eich plant ei archebu drwy adran yr Urdd, neu anfonwch atom ni yma i Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

Yn gywir,
Gwyneth Hunkin
Carwen Vaughan
(Golygyddion)

**LLEOLIADAU'R SGIPIAU YM MRO'R "ECO"**

## RHAGFYR 1, 2 a 3

**CEUNANT:**
**1. Tir wrth ochr 1 Bryn Gwyn Terrace, Tan-y-coed.**
**2. Darn o ffordd gyferbyn â Bron Hafod o flaen Bryn Berllan.**
**PENISARWAUN:**
**3. Tir glas wrth rhif 12 Llys y Gwynt**
**4. Tir glas gerllaw bŵth ffôn yn ystad Bryn Tirion.**
**5. Tir wrth ochr llwybr sy'n arwain i gae chwarae – gyferbyn â rhif 4 Tai Bryn Hyfryd.**
**CRAWIA – LLANRUG:**
**6. Tir glas gerllaw bŵth ffôn.**

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

**BANGOR**
**354646**

# ADDURNIADAU NADOLIG

*Annwyl Olygydd,*

*Ar gyfer Noson Y Goeden Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ar Rhagfyr 15, byddwn yn addurno rhai o'r tai yn yr Amgueddfa. A gawn ni apelio ar i'r darllenwyr sy'n berchen neu sy'n gwybod am hen addurniadau Nadolig o'r 1950au, 1920au neu'r 1890au* ***o unrhyw fath*** *adael i mi wybod gan y buaswn yn falch iawn o fedru eu defnyddio ar yr achlysur hwn.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Tecwyn Vaughan Jones,*
*Amgueddfa Werin Cymru,*
*Sain Ffagan,*
*Caerdydd.*

# HEN ARFER
## Y FARI LWYD

Mae'r arfer hwn yn gysylltiedig â'r canu gwaseilio yn ystod tymor y Nadolig. Y Fari Lwyd yw'r enw ar y pen ceffyl wedi ei addurno â rhubanau y byddai partïon yn ei gludo o ddrws i ddrws. Byddai'r parti yn canu cyfres o benillion traddodiadol y tu allan i ddrws y tŷ ac yna ar yr un dôn byddai rhywun o'r tu mewn yn ateb yn ôl, gan greu dadl rhwng y parti a pherchennog y tŷ. Fel arfer, 'roedd tynnu coes lled galed wrth i'r naill ochr ddifrïo'r llall am ganu sâl, meddwdod neu bod yn grintach. Yn y diwedd, y parti y tu allan oedd yn ennill y ddadl a chael mynediad i'r tŷ i fwynhau'r croeso yno. Mae'r ddefod yn parhau ym Morgannwg o hyd.



*Y Fari Lwyd, Llangynwyd, Morgannwg. c. 1908*

# ANGEN GWYBODAETH AM "FELIN SAM"



CONTRACTOR TO H.M. GOVERNMENT

ESTABLISHED 1853.

GLANDINORWIC SLATE WORKS,
Carnarvon, 18
M

SLATE POLISHING DEPARTMENT — FRAMING & FINISHING DEPARTMENTS — SLATE SAWING & SPLITTING DEPT

Bought of Samuel Jones,
Manufacturer of Framed Unframed & Log Slates,
SOLE MAKER OF THE CELEBRATED "CROWN" SCHOOL SLATES.
Half price allowed for Boxes if returned carriage paid & in good order to Pont Rhythallt Station.

| DATE | DOZENS | EQUAL IN CASES TO | DESCRIPTION | SIZE | PRICE PER DOZEN | £ | s | d | £ | s | d |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

*Annwyl Olygydd,*

*Cais am gymorth gan eich darllenwyr unwaith eto! Yn ddiweddar, daeth y copi gwreiddiol o'r ddyleb amgaëig i feddiant yr Amgueddfa. Gellir gweld mai cwmni Samuel Jones, 'Glandinowric Slate Works', a chyflenwyr llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion, a ddarparodd y ddyleb: dyma berchennog yr adeilad a adwaenir fel 'Felin Sam' yng Nghlwt y Bont, wrth gwrs, ac mae'n debyg mai Melin Sam yw'r adeilad a ddynodir fel 'Framing and Finishing Department' yn y darlun canlynol. Ond ble, tybed, oedd y 'Slate Polishing Department, a'r 'Slate Sawing and Splitting Department?' Mae'n anodd credu bod gan Samuel Jones gyflenwad preifat o glytiau i'w llifio a'u naddu, ac felly tybed os oedd yn prynu ei glytiau o chwarel Dinorwig, ac mai darlun brâs iawn sydd yma o Ffeiar Injan? Gobeithio y gall un o'ch darllenwyr gynorthwyo — byddaf yn ddiolchgar tu hwnt am gymorth.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Dr. Dafydd Roberts,*
*Amgueddfa Lechi Cymru,*
*Y Gilfach Ddu,*
*Llanberis.*
*870630*

# CYRSIAU A CHALENDRAU NANT GWRTHEYRN

*Annwyl Olygydd,*

*Ar ran Ymddiriedolaeth Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at Galendrau Cymraeg a Chyrsiau Preswyl y Nant ar gyfer 1988.*

*1. Calendr Cymraeg 1988*
*Nifer cyfyngedig ac yn unigryw i Nant Gwrtheyrn. Chwe llun du a gwyn o'r Nant — pump ohonynt yn dangos bywyd yn ystod oes y chwareli â'r chweched yn dangos llun o'r Nant heddiw. Pris £2.00 (£2.20 trwy'r post).*

*2. Cyrsiau Preswyl*
*Mae rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau pum niwrnod y Nant bellach ar gael. Yn ogystal â chyrsiau amrywiol ar gyfer dysgwyr o bob lefel ac oedran, mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyrsiau amrywiol ar gyfer Cymry Cymraeg (mamiaith). Beth am ystyried Cwrs Preswyl yn y Nant ar gyfer peth o'ch amser hamdden yn ystod 1988? Cynigir telerau ffafriol iawn i grwpiau, teuluoedd a disgyblion ysgol e.e. pris arferol cwrs pum niwrnod (nos Sul i fore Gwener), lluniaeth llawn — £90.00 oedolyn — yn cynnwys llety, bwyd, gwersi, ymweliadau, sgyrsiau, adloniant a llawer , llawer mwy! Rhagor o fanylion ar gael o:—*
*Swyddfa'r Nant,*
*Llithfaen,*
*Pwllheli,*
*Gwynedd.*
*LL53 6PA*
*Diolch yn fawr iawn ymlaen llaw am eich cyd-weithrediad caredig.*
*Yn gywir,*
*Osian Wyn Jones,*
*Cyfarwyddwr.*

# GRWPIAU POP I BABELL 'BLAS CAS'

*Annwyl Olygydd,*

*M'ae'n arferiad gan Is-bwyllgorau Ieuenctid yr Eisteddfod Genedlaethol estyn gwahoddiad i nifer o grwpiau, boed yn rhai poblogaidd trwy Gymru gyfan, neu yn rhai lleol, i gymryd rhan yn Rhaglen Swyddogol y Babell Ieuenctid ar Faes yr Eisteddfod.*

*Bwriedir newid ychydig ar y drefn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, a gwahoddir grwpiau trwy Gymru gyfan sydd â diddordeb mewn perfformio ym Mhabell Blas Cas gysylltu â ni. Mae hyn yn agored hefyd i'r grwpiau sydd eisoes wedi ennill eu plwy' yng Nghymru.*

*Ni ellir, yn naturiol, sicrhau y bydd lle ar gyfer pob grŵp a wnaiff gais, ond yn sicr bydd hyn yn gyfle i'r grwpiau newydd a ffurfiwyd yn ystod y misoedd diwethaf gael cyfle i nodi eu presenoldeb ym myd canu cyfoes Cymru.*

*Os oes gennych ddiddordeb, byddai'n dda derbyn gair oddi wrthych yn nodi enw'r grŵp, y math o gerddoriaeth, a'r dyddiadau yr ydych ar gael yn ystod y cyfnod o 30 Gorffennaf — 6 Awst 1988 i gymryd rhan yn y gweithgareddau.*

*Dylid anfon y manylion at:*
*J. Idris Evans,*
*Trefnydd,*
*Swyddfa'r Eisteddfod,*
*Moderator Wharf,*
*Rhodfa'r Brenin,*
*Casnewydd,*
*Gwent*
*NP9 1EX*

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .
I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â
**SIAN**
**MAIRANNEDD**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon 5366**

**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**

# YSGOL BRYNREFAIL

Cynhelir Cyfarfod Carolau ynghyd ag yr eitemau gan fuddugwyr Eisteddfod yr Ysgol
Nos Iau Rhagfyr 17eg am 7.00 o'r gloch.
Pris mynediad 50c yn cynnwys paned a 'Mins pie'.
Yr elw tuag at darged yr ysgol, cronfa Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.



# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



**Darlun dynnwyd 1901-02**

*Derbyniwyd y darlun hwn trwy law Mrs Betty Owen, Tros-yr-Afon. Daethpwyd ar ei draws gan ei chefnder Mr Griffith Griffith sydd ar hyn o bryd yn trigo yn Awstralia ac yn fab i'r diweddar Mr William Griffith a hanai o Glwtybont a Mrs Angharad Griffith sydd yn byw yng Nghaernarfon ac a ddathlodd ei phenblwydd yn ddeg a phedwar ugain yn ddiweddar. Ple tynnwyd y llun tybed ac ar ba achlysur? A all rhywun roi gwybodaeth?*

YR ŴYL DDIOLCHGARWCH: Ddydd Sul, Hydref 25ain daeth cynulliadau teilwng ynghyd i'r cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhaeaf yng Nghapel M.C. Brynrefail, a chafwyd oedfaon bendithiol. Roedd oedfa'r bore dan ofal ieuenctid a phlant yr eglwys. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog, Mrs Carol Houston, Mrs Ifanwy Jones a Mrs Mair Davies. Cymerwyd rhan gan Meinir a Marian Jones, Eluned Roberts, Glenda a Paula Walters, Nicola Houston, Einir, Catrin ac Owain Gwyn, Rhian Davies, Iola Davies, Lynette a Carol Ruchy. Traddodwyd yr anerchiad gan y Parch John Morris. Trefnwyd cyfarfod gweddi'r prynhawn gan Mrs Jennie Angharad Roberts ac arweiniwyd yn y gwasanaeth gan Mrs Betty Owen, Mrs Ifanwy Jones, Mrs Gwyneth Evans, Miss Lowri Prys Roberts a Mrs Carol Houston.

FFAIR NADOLIG: Cafwyd cyfarfyddiad o chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail i drefnu'r Ffair Nadolig a gynhelir Nos Iau, Rhagfyr 3ydd am 7 o'r gloch. Etholwyd y canlynol yn swyddogion y Pwyllgor. Llywydd – Mrs Jennie Roberts; Ysgrifenyddion: Mrs Ifanwy Jones a Mrs Carol Houston. Trysorydd: Mrs Dilys Morris. Y gŵr gwadd fydd un o gyn aelodau'r eglwys, Mr Rol Williams, Waunfawr. Trefnir y gweithgareddau ar yr un llinellau ac a wnaed y llynedd pryd y cafwyd Ffair lwyddiannus iawn, ac apelir am gefnogaeth frwd eto eleni.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Arthur Jones, 5 Trem Eilian yn ei brofedigaeth o golli ei fam Mrs Myfanwy Jones, Tanycoed ddydd Gwener Tachwedd 13eg. Bu'r angladd ddydd Mawrth Tachwedd 17eg yn yr Amlosgfa ym Mangor.

GENI EFEILLIAID: Llongyfarchiadau i Don a Jenny Cheyne, Penllyn Farm ar enedigaeth efeilliaid – dau fab bach, Robert Anthony a William Andrew, brodyr i Rhian, a anwyd yn Ysbyty Dewi Sant ar y 10fed o Dachwedd. Bu Mrs Cheyne yn yr ysbyty ers y glaw mawr ddydd Sul Hydref 18fed pan oedd tua dwy droedfedd o ddŵr yn llifo trwy'r tŷ. Aed a hi allan o'i chartref tu ôl i dractor Mr Glyn Owen, Tros yr Afon gan na allai'r gwŷr Ambiwlans fynd o fewn dau gan llath i'r tŷ!

CASGLIAD Y GYMDEITHAS FEIBLAU: Yn y casgliad a wnaed yn y pentref tuag at y Gymdeithas uchod, fel rhan o ymdrech Cymdeithas y Beiblau Cangen Deiniolen a'r cylch, casglwyd y swm o £38.40. Diolch i'r casglyddion am eu gwaith ac i bawb am eu haelioni.

NOSON TÂN GWYLLT: Cafwyd noson gyffrous a llwyddiannus iawn nos Iau, Tachwedd y pumed yng nghae Chwarae'r pentref. Bu paratoi dygn gan y plant ar gyfer y goelcerth ac mae'n diolch i Mrs Audrey Roberts a Mrs Carol Houston am gasglu'r rhoddion tuag at yr achlysur. Cafwyd arddangosfa tân gwyllt penigamp dan ofal Mr David Ellis a Mr Gwyn Mowll. Ar y terfyn, 'roedd lluniaeth blasus o datws trwy'i crwyn a llysiau yn cael eu rhannu i bawb gan Mrs Moira Ellis a Mrs Carol Houston, ac mae ein diolch i famau'r pentref am y trefniant hwn i gloi'r noson.

CYFARFOD GWEDDI: Nos Fercher, Tachwedd 4ydd, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi'r ofalaeth yng Nghapel M.C. Brynrefail. Arweiniwyd yn y gwasanaeth gan Mrs Jennie Angharad Roberts, Glandwr, Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed, Mr Glyn Owen, Pontrhythallt a Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Burath. Diweddwyd gan y gweinidog y Parch John Morris.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Tachwedd 16eg, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yn y Festri. 'Roedd Mrs Rhian Owen y Cadeirydd Sirol yn bresennol ynghyd â Mrs Megan Jones yn ei chynorthwyo. Canlyniad yr etholiadau oedd; Llywydd Mrs Pat Jones, Ysgrifennydd Mrs Carol Houston, Trysorydd Mrs Eirlys Williams. Is-lywydd Mrs Rhian Jones ynghyd â Mrs Betty Owen a Mrs Jennie Hughes yn aelodau o'r pwyllgor. Nos Fawrth, Rhagfyr 8ed bydd aelodau'r gangen yn cymryd rhan yng Ngŵyl Garolau Sefydliad y Merched Arfon yn y Waunfawr. Bydd y cinio Nadolig yng Ngwesty'r Stables, nos Lun Rhagfyr 14eg. Derbynir enwau gan Mrs Audrey Roberts a Mrs Helen Maud Jones.

## GENI EFEILLIAID



# CWM-Y-GLO

Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB IEUENCTID: Mewn rhan arall o'r rhifyn yma o'r Eco byddwch wedi gweld a darllen argraffiadau a diolchiadau aelodau'r Clwb i bawb a gyfrannodd ar lwyddiant y noson Tân Gwyllt a gynhaliwyd yn y caw chwarae lleol ar y 5ed o Dachwedd. Profodd y noson deuluol yn wir ystyr y gair gyda phawb o bob oed wedi mwynhau eu hunain. Ymddengys yn ôl yr ymateb y bydd y noson yma yn ddigwyddiad blynyddol o hyn ymlaen.

Canu Carolau: Mae'r aelodau a'u rhieni yn bwriadu mynd o gwmpas y pentref cyn y Nadolig i ganu carolau a chasglu arian at achosion da. Bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser. Hefyd mae trefniadau ar droed i gynnal Disgo Nadolig ar gyfer aelodau'r clwb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Beryl Parry a theulu y diweddar William Samuel Parry, 1 Hafan Elan, Llanrug ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

PÊL-DROED: Dechrau ardderchog i'r tymor newydd gan dim pêl droed y pentref. Wedi chwarae 7 gêm, ennill 5, un gên gyfartal a cholli un. Wedi sgorio 44 o gôls a dim ond deg yn erbyn, ac yn awr yn drydydd yn y Gynghrair. Daliwch ati hogia i wneud mor dda.

GWELLHAD: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mr John C. Jones, 21 Dôl Afon, Mr Frank Jones, 24 Dôl Afon a Mrs Jean Hannes, Groeslon yn ysbyty Gwynedd.

BEDYDD: Yn Eglwys Sant Gabriel, pnawn Sul Tachwedd 8fed bedyddiwyd Garry Steven, mab bach Susan ac Alan Roberts, Caernarfon. Gwasanaethpwyd gan y Parch Canon Richard Jones, Deon Gwlad.

YR YSGOL FEITHRIN: Nos Lun, Rhagfyr 14eg am 7.30 o'r gloch cynhelir Noson Goffi a Stondinau yn y Ganolfan er budd yr Ysgol Feithrin sydd i ddechrau am y tro cyntaf yn y Ganolfan ym mis Ionawr. Derbynir nwyddau ar gyfer y stondinau hefyd. Buasai'r aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am degannau (mewn cyflwr da) ar gyfer yr Ysgol Feithrin. Os am fwy o fanylion cysylltir â Mrs Sioned Jones (872085)

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Beryl Parry, 1 Hafan Elan, Llanrug (gynt o Dôl Afon) yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Mr W.S Parry, tad Mr Elfed Parry Glandwr a brawd yng nghyfraith Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro.

CLWB POBOL Y CWM: Er gwaethaf y tywydd anffafriol daeth amryw o'r aelodau i gyfarfod, dydd Iau Hydref 22. Mae'n amlwg fod amryw o hen aelodau o'r gwarchodlu cartref wedi cofnodi hanesion o'u profiadau ac am yr ail dro cawsom bnawn difyr yn gwrando ar Mr Richard Roberts, Bryn Gro yn adrodd ei brofiadau yn y cyfnod hwnnw. Daeth ar draws amryw o droeon trwstan a llawer o hiwmor ymysg yr aelodau. Diolchodd y Llywydd Mr Llew Hughes iddo ynghyd â rhoddwyr y te Mr a Mrs H Pritchard, Bryn Gwynedd, a'r raffl gan Mrs E Jones, Seiont House a enillwyd gan Mrs E Hughes, Hyfrydle.

Nid yw dawn llywfan Mr R.H. Parry un o aelodau selog y clwb yn anhysbys. Er yn ieuanc rhoddodd gyfraniad diflino mewn cyngherddau lleol. Pan ymunodd â'r llu awyr yn ystod y Rhyfel diwethaf cafodd gyfle i ymuno â phartïon adloniant y llu awyr ac er ei drafaul o wlad i wlad casglodd amryw o brofiadau diddorol. Rhannwyd y profiadau hynny gyda ni yn ei sgwrs "O Lwyfan i Lwyfan" yng ngyfarfod Tachwedd 5. Diolchodd y llywydd iddo am gyfraniad difyr i'r pnawn.

Mae dwy aelod o'r Clwb Mrs H M Roberts, Bryn Gro a Mrs E Morris, Y Becws wedi dychwelyd gartref ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Gwynedd ac yn gwella yn foddhaol, a deallwn fod Mr Tom Owen, Maes Gerddi ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth. Hyderwn y caiff wellhad buan. Roedd y te yng ngofal Miss E Hughes, Tanygraig a Mrs E Hughes, Hyfrydle. Rhoddwyd y raffl gan Miss M Davies, Craigydon ac enillywd gan Mrs E Jones, Seiont House.

YR YSGOL GYMUNED: Llywodraethwyr: Etholwyd Mrs Margaret Williams, Bryn, fel cynrychiolydd Rhieni ar y corff Llywodraethol ddechrau mis Hydref.


Theatr Gwynedd: Bu plant yr adran gynradd yn Theatr Gwynedd yn gweld perfformiad gan y Molecule Theatre. Sain oedd y thema wyddonol y tro hwn ac yn ôl arfer y cwmni cafwyd cyflwyniad arbennig o addas a diddorol.

Coed: Drwy gydol y tymor hwn, bu Mr Eric Maddern o adran Prosiect Addysg Byd yng Ngholeg Santes Fair ym Mangor yn gweithio gyda'r plant ar thema Coed. Cafodd y dosbarth hynaf lawer o brofiadau amrywiol yn ystod y tymor, ac yn eu mysg ymweliad diwrnod â Pharc Padarn yn Llanberis.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon: Yng nghyfarfod cyffredinol y Gymdetihas, etholwyd y swyddogion a ganlyn. Cadeirydd: Mrs Sylfia Williams, Bwlch. Ysgrifenyddes: Mrs Margaret Williams, Bryn. Trysorydd: Mrs Vera Price, Tan y Graig. Cafwyd taith gerdded/helfa drysor lwyddiannus iawn o amgylch pentref Brynrefail yn barod y tymor hwn. Yr enillwyr oedd Mrs Susan Jones, Darren a Kelly. Y gweithgaredd nesaf fydd noson o chwist i rieni yng ngofal Mrs Hilda Orritt, nos Iau 26ain Tachwedd am 7.00. Cynhelir noson o Fingo yn yr ysgol am 7.30 nos Wener, 4ydd Rhagfyr, i godi arian i'r gronfa.

Adran yr Urdd Penllyn. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr adran ac etholwyd y canlynol: Arweinydd – Dafydd Idriswyn; Ysgirfienyddion: Mrs Glenda Roberts a Mrs Veronica Williams. Trefnwyd rhaglen am y Tymor. Yn y cyfarfod cyntaf, daeth Mrs Beth Ann Williams o Lanrug i gynnal Dawns Werin hefo ni, a daeth Mr Dafydd Price, Tan y Graig i gynnal noson o gemau'r wythnos ddilynol. Bydd aelodau o Adran Bentref Waunfawr yn ymuno â ni am gwis yn y dyfodol agos.

DYDDIADUR: Nos Fercher, Rhagfyr 9ed am 7.15, Gyrfa Chwist Nadolig, yn yr Ysgol Gymuned.






Mae JOAN a CHARLES WARE
**SWYDDFA'R POST**
**a Stordy Cwm-y-Glo**



**Ffôn: 870242**
yn dymuno'n dda i chwi oll
dros y Nadolig hwn – ac yn
diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn



Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

**MODURDY**
**London Garage**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn Llanberis 870234**
**Arbenigwyr mewn tiwnio moduron**
**A.A. M.O.T.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**BRYN A KATHLEEN WILLIAMS**



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482
GWEITHDY
TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793

Gwneuthurwyr ffenestri, drysau, grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i'w wneud iddynt bara




ODDI WRTH
**MORRIS BROS.**
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Burmah AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO Burmah

**GORSAF BETROL**
**LONDON GARAGE**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn: Llanberis 872046**
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Dymuna Maldwyn a Margaret
**Gwesty'r Fricsan**



(Snowdon Hotel)
**CWM-Y-GLO**
**Llanberis 870289**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth



**C & D.WAGER**
**Llythyrdy**
**BRYNREFAIL**
**Ffôn: LLANBERIS 870241**
Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau Llyfrau Cymraeg Llysiau Melysion Tybaco

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.**

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am mis Hydref. 1af £40 Mrs R Owen, Bryn Môr; 2il £25 Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt; 3ydd £10 Mr Barry Walker, Snowdonia Park Hotel.

DIOLCH; Dymuna Iris a Keith Owen ddiolch o galon i'w perthnasau a'u cyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab, Osian.

YR URDD: Cafwyd hwyl a sbri unwaith eto eleni ar noson Guto Ffowc gyda choelcerth anferth a llawer i glec a seren ddisgliar. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Unwaith eto mae Dafydd Iwan yn garedig iawn yn dod i ymuno â phlant yr Urdd i ganu carolau ar Nos Fercher Rhagfyr 9ed am 6.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Gwneir casgliad tuag at achos da. Croeso i bawb ymuno â'r plant yno.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod Blynyddol o'r Sefydliad yn Festri Croeswyaun Nos Iau Tachwedd 5ed. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Pat Parry a chroesawodd Mrs Ann Noutch, Trefnydd Gwirfoddol y Sir i'r cyfarfod. Darllenwyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a'r llythyr misol a thrafodwyd y materion perthnasol. Darllenodd Mrs Katie Wynn Jones ei hadroddiad o Gyngor yr Hydref a gynhaliwyd yn Llandudno yn ddiweddar. Penderfynwyd cael Parti'r Flwyddyn Newydd yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, Nos Iau Ionawr 7ed. Mae 33 o dimau wedi rhoi eu henwau i gymryd rhan yn y gystadleuaeth dartiau. Darllenwyd y datganiad ariannol ac adroddiad yr ysgrifennydd, a rhoddodd y llywydd ei hadroddiad hithau. Pwyllgor am y flwyddyn nesaf yw: Llywydd – Mrs Pat Parry; Ysgrifennydd – Mrs Peggy Jones; Trysorydd – Mrs Catherine Jones, Mrs Katie Wyn Jones, Mrs Missen a Mrs Buddug Rowlands. Enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Overy. Cynhelir Gŵyl Garolau yng Nghapel Croesywaun Nos Fawrth Rhagfyr 8ed dan arweiniad Madam Betty Williams Jones, gyda phaned a mins peis wedyn.

PLAID CYMRU: Cynhelir Ffair Nadolig yn y Ganolfan am 6.30 y.h., Nos Wener 27 o Dachwedd. Bydd stondinau amrywiol gan gynnwys stondin grefftau, Sion Corn ac arwerthiant. Mynediad: Oedolion 30c, plant 10c. Dewch yn llu!

ANTUR WAUNFAWR: Mae gan Antur Waunfawr gynnyrch amrywiol ar werth ar hyn o bryd, gan gynnwys jam eirin duon, jeli cwins, shwtni merlys a phlanhigion tŷ. Galwch heibio yn ystod oriau gwaith neu ffoniwch Waunfawr 721.

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa diolch i'r athrawon, plant yr ysgol, staff y gegin, a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ymddeoliad o'r ysgol.

CLWB 100 – PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Hydref: 1. Don Roberts, Sŵn -y-Gwynt; 2. Mrs Hughes, Llys Meredydd; 3. Mr T.J. Griffith, Ty'n yr Onnen.

LLONGYFARCHIADAU: i Keith ac Iris Owen, 5 Stâd Tŷ Hen, ar enedigaeth mab bychan, Osian, ac i Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian ar fod yn daid.

I Mrs May Roberts, Bod Afon, ar fod yn nain: ganwyd mab i Catrin a Eurwyn.

DYMUNWN yn dda hefyd i Mr Arthur Ellis, Min y Nant, sydd bellach wedi ymddeol o'i swydd yn y Llyfrfa (Bookroom) ar ôl amser maith.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, yn ei brofedigaeth o golli mam.

 Mr John Tame, 1 Stâd Glyn Afon, hefyd ar golli mam.

Ac â Mrs Llinos Dinwiddy, Glyn Garth, ar farwolaeth ei modryb, sef Mrs Enid Ann Evans, Glan Gors gynt.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs M Griffith, Tref Eilian. Bu'n hynod o ffyddlon i Gapel Bethel ac yn gefnogol iawn i weithgareddau'r pentref. Cydymdeimlwn yn fawr â Cennin, Geraint a'u teuluoedd.

Cydymedimlwn hefyd â Erin ac Alan Jackson ar farwolaeth eu tad yn ddiweddar, sef Capten Alex Jackson, Trigfa.

YR YSBYTY: Dymuniadau gorau i Mrs Parry Williams, Gwynfa sydd wedi dychwelyd o'r ysbyty.

Ein cofion gorau hefyd a anfonwn at Mrs Betty Hughes Bro Waun, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon erbyn hyn. Gobeithiwn y cawn ei gweld adref cyn bo hir.

CLWB GWYRFAI: Dechreuodd tymor y gaeaf ar Hydref 8 gyda'r Parchedig Barry Thomas yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd Mr Iolo Huws Roberts oedd newydd ddod yn ôl o wyliau yng Nghanada. Rhoddodd sgwrs ddifyr ar ddaearyddiaeth y wlad enfawr yma a dangos sleidiau o fannau o ddiddordeb lle roedd o a Mrs Roberts wedi ymweld â hwy yn ystod y mis. Diolchwyd yn gynnes i Mr Huws Roberts gan Mrs Morgan Jones. Hefyd i Mrs Gill Brown, Catherine a Gwen o Antur Waunfawr am eu help efo'r te.

Hydref 22: Ein gwestai oedd Mrs Thorman, Siop Blanhigion, Stryd Llyn, Caernarfon. Roedd wedi dod â llawer math o blanhigion tŷ, mewn potiau i'w dangos a rhoddodd sgwrs ar y modd i'w datblygu ac edrych ar eu hôl. Dangoswyd diddordeb mawr gan yr aelodau a diolchwyd iddi am ymweld â'r Clwb.

Tachwedd 5: Ein gŵr gwadd oedd Mr R Gwyn Davies ac fel y digwyl cawsom bnawn hynod o ddifyr yn clywed beth o hanes ei yrfa fel cyfreithiwr ifanc, i fod yn Glerc yr Ynadon gydag ambell i dro trwstan ar y ffordd. Diolchwyd yn gynnes awn i Mr Davies gan Mr Griffiths, Llys Helen. Hefyd i Mrs Gill Brown a'i chyfeillion. Croesawyd Mrs Kate Jones fel aelod newydd a dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad. Hefyd croeso yn ôl Mrs Mottram sydd wedi gwella ar ôl cyfnod mewn ysbytai. Talwyd teyrnged i'r diweddar Gapten Alex Jackson, Trigfa, fu ar un amser yn drysorydd i'r Clwb ac yn cadw ei aelodaeth a'i ddiddordeb hyd y diwedd. Cydymdeimlwn ac Erin ac Alan a'r teuluoedd yn eu colled. Mae angen enwau a thâl gan yr aelodau sydd am ddod i'r Cinio Nadolig yn y Tŷ Golchi ar Ragfyr 10 erbyn diwedd y mis.

# CAEATHRO

**Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.**

CLWB GER-Y-TÂN: Bellach cafwyd dau gyfarfod o'r Clwb uchod. Ym mis Medi aeth criw bychan allan am bryd o fwyd i Westy Muriau, a chael noson bleserus iawn. Ym mis Hydref cafwyd noson ddiddorol tu hwnt yng Ngerallt, yng nghwmni Mr Bobby Haines o Gaernarfon. Daeth tua pymtheg o ferched ynghyd i wrando arno yn sgwrsio am ei wyliau yn yr Amerig, a dangos sleidiau. Penderfynwyd cyfuno cyfarfodydd Tachwedd a Rhagfyr, a threfnu cinio Nadolig ar Ragfyr 2il yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.

NOSON CAWS A GWIN: Cynhaliwyd Noson Gaws a Gwin lwyddiannus dros ben yng Nglangwna nos Wener 13eg o Dachwedd. Codwyd £154.06 at apêl Caeathro, Pontrug a Rhosbach ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Nantlle 1990. Diolch i'r pwyllgor am eu gwaith caled, a'r cefnogwyr am eu presenoldeb, ac i Ann Hopcyn am ganu'r delyn yn ystod y noson. Tynnwyd raffl yn ystod y noson, a bydd Deian bach yn cofio am ei ful am amser maith!

GWASANAETHAU'R CAPEL: Cynhelir y gwasanaethau canlynol hyd at ddiwedd y flwyddyn:– Sul Tachwedd 29: Parch Emrys Thomas am 2 o'r gloch; Rhagfyr 6: Mr D.R. Pritchard am 2 o'r gloch; Rhagfyr 13: Parch Gwynfor Williams am 2 o'r gloch; Rhagfyr 20: Gwasanaeth y plant am 5.30; Rhagfyr 27: Oedfa Nadolig.

PARTI NADOLIG: Bydd elw'r Parti Nadolig eleni yn mynd at gronfa leol apêl Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Cynhelir cinio yng Nglangwna, nos Wener 18ed o Ragfyr, gyda'r enwog Gari Williams yn darparu'r adloniant. Bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthu tocynnau cyn bo hir. Eleni bydd cyfle i bentrefwyr sy'n methu dod i'r cinio brynu tocynnau raffl ymlaen llaw oddi wrth aelodau'r pwyllgor.

ADFERIAD IECHYD: Dymunwn adferiad iechyd i Mrs Einir Roberts, 3 Erw Wen, a Mrs Eirian Griffiths, Annedd, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ifanc y pentref a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen yn ddiweddar: Unawd merched dosbarth 3 a 4 – Ffion Medi Hughes, Lleifior; Adroddiad (2) Ffion Medi Hughes; Unwad Cerdd Dant – Ffion Medi Hughes; Gwnio 3 a 4 – (2) Nia Wyn Jones, Sibrwd-y-Gwynt; Llinell goll bechgyn – Iolo Morris Roberts, Gerallt; Barddoniaeth – Iolo Morris Roberts; Brawddeg – (2) Gwenno Hughes, Tŷ Mawr; Stori fer – (2) Iolo Morris Roberts. Hefyd i Iolo Morris Roberts, Gerallt oedd yn gapten bechgyn y tŷ buddugol, sef Menai.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â theulu Mr Hemsworth, Barn Cottage, Rhos Bach, a fu farw'n sydyn ddydd Sadwrn.

## ATODIAD BETHEL

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990

Mewn cyfarfod o gangen leol yr Urdd yn ddiweddar, cyflwynodd Eleri Robinson siec o £95 – elw y noson Tân Gwyllt, i Mrs Glenys Griffiths, Ysgrifennydd y Pwyllgor Apêl. Dyma gychwyn, felly ar yr ymgyrch i gyrraedd y targed.

Dyddiad i'w gofio: Ar Nos Lun, Rhagfyr 21 fe fydd Sion Corn yn galw heibio'r pentref ar ei fflôt. Fe fydd yn ymweld â'r holl stadau, a bydd elw'r noson honno yn mynd tuag at y gronfa apêl.


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL

DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291



Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* Gwasanaeth 7 diwrnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth



WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING

32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

# DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Mae'n wybyddus ers nifer o flynyddoedd bellach fod yr awdurdodau yn canolbwyntio eu sylw ar y prif-ffyrdd, ac anwybyddu'r llwybrau di-arffordd. Pan geir tywydd cymharol sych, a minnau'n arfaethu myned i "Blas Eryr", Clwtbont i ymorol am dabledi i'r wraig a mi fy hun, fe fum yn canfod bod myned i lawr yr Inclên a thorri ar draws i ffordd y Garnedd yn cwtogi cryn dipyn ar y daith. Mae wyneb y ffyrdd hyn heb gael eu trin yn briodol ers amser maith, gyda'rcanlyniad bod yr arwynebedd yn bur anwastad. Fe roddwyd "camfa goed" yn lle giât bach – a dyna'r cyfan a wnaethpwyd. O'r herwydd nid yw'r ffyrdd mor hwylus ag y buont ar un adeg. Dichon na welir eisiau'r ffyrdd a'r llwybrau hyn gan y rhelyw sydd mor ddibynol ar y bysiau i'w cludo. Faint tybed o'r cynhgorwyr sy'n gwneud defnydd o'r ffyrdd hyn? Ychydig iawn yn ôl pob golwg.

SARDIS: Yr ydym ni yn Sardis yn ddyledus iawn i gyfeillion o gapel Dinorwig (M.C.) am eu cefnogaeth cyson yn ymuno â ni yn ein gwasanaethau hwyrol. Oedfa bnawn Sul sydd ganddynt hwy, mewn cyfnod fel y presennol, pan fo cynulleidfaoedd mor denau, mae dau neu dri yn ychwaneg yn foddion i godi ein calonnau.

LLONGYFARCHIADAU: Fel y crybwyllwyd eisoes yn nodiadau'r mis diwethaf roedd Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir yn dathlu eu priodas ruddem ar Hydref 29ain. Fe unwn ninnau â'u teulu i'w llongyfarch ar yr achlysur hapus hwn, ac fe gafwyd gair o ddiolch oddi wrth Idris, Ann, Glyn, Alun, Margaret, Gwyneth, Merion, Rhian, Arwel, Siwan, Meilir, Bethan, Owain, Osian, Elin a Phïon.

PRIODAS: Ar ddydd Sadwrn Hydref 31ain yn Egwlys St. Mair unwyd mewn glân briodas Carys – merch y diweddar Mr John Williams a Mrs Eirvie Williams, 12 Rhesdai'r Faenol, Deiniolen â Robert Wyn – mab hynaf Mr a Mrs Emyr Jones, Twlc Uchaf, Nazareth, Nebo. Y gwâs priodas oedd Gwynfor, brawd y priodfab a'r morynion oeddynt Andrea a Teresa – chwiorydd y briodferch, ac fe'i rhoddwyd i ffwrdd gan Mr Gwilym Williams ei hewythr. 'Roedd y gwasanaeth yn St Mair yng ngofal Y Parchg. Ganon Richard Jones, y Felinheli. Fe fu'r cwpl ifanc am ychydig ddyddiau ym Mryste.

DYWEDDÏAD: Fe hysbysir dyweddïad Shirley, merch Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian â Colin mab hynaf Mr a Mrs D.J. Humphreys, Is Helen, Bethel.

Y GYMDETIHAS: Ar nos Iau Hydref 29ain fe gafwyd cyngerdd i gychwyn tymor y Gymdetihas Ddiwylliadol Undebol ac fe wasanaethwyd gan Fand Ieuenctid Deiniolen a'r Cylch a hynny dan gyfarwyddyd Mr David Wyn Jones, Rhydfadog. Aelodau o'r band oedd yn gyfrifol am eitemau ychwanegol mewn adrodd, unwadau lleisiol ac offerynol a deuawdau offerynol, ar 'roedd llywydd y noson Mr Hefin G Jones, Llanrug – un a'i wreiddiai yn Ninorwig yn arwain eitemau gan bedwarawd offerynol. Mae'r band hwn yn estyn gobaith cadw'r traddodiad offerynol i'r dyfodol. Fe fu'r gorffennol yn ddisglair yn hanes band Deiniolen a hyfrydwch o'r mwyaf yw croesawu pob ymdrech i gadw'r un mor ddisglair – a phwy a ŵyr na bydd yn ddisgleiriach. Er i'r ardaloedd hyn gael Côr Meibion cymeradwy iawn y band yn unig a erys ar ôl, ac mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i'w gefnogi.

Er hwylustod i'r foneddiges a wahoddwyd i annerch y Gymdeithas Undebol fe newidwyd yr ail noson o Nos Iau i Nos fawrth Tachwedd 10, ac fe gafwyd hanes taith gyda nifer o sleidiau o lëoedd yn ucheldiroedd Periw gan Miss Norah Jones, Bangor. Fe'i cyflwynwyd hithau gan Mrs Alice M Griffith, Tanbwlch. Roedd hon eto yn noson hynod o ddiddorol ac yn dangos fel y camdrinwyd yr "Incas" sef y brodorion gwreiddiol gan Iwropïaid gormesol.

EISTEDDFOD: Edrychwn ymlaen yn obeithiol at ail sefydlu Eisteddfod unwaith rhagor yn yr ardal. Mae hanes da i'r Eisteddfod hon yn y gorffennol.

CYCYMDEIMLO: Dymuna Mrs N Williams, 29 Tai Rhydfadog, Deiniolen ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion am bob cydymdeimlad a dderbyniodd wedi colli ei hannwyl frawd y diweddar John Dyffryn. Diolch yn fawr i bawb.

EISTEDDFOD BENTREF: O Fewn ychydig ddyddiau ar ôl i chwi ddarllen y rhifyn hwn o'r Eco byddwn yn gweld yr Eisteddfod Bentref gyntaf ers blynyddoedd yn cael ei chynnal nos Fawrth – Rhagfyr 1af yn y Ganolfan Gymdeithasol leol. Yr argraff y mae Mr Glyn Tomos y trefnydd wedi ei gael yw bod cynnal yr Eisteddfod wedi creu cryn ddiddordeb ymysg llawer yn y pentref ac mewn pentrefi eraill o dalgylch Gwaun Gynfi. Felly cofiwch gefnogi'r Eisteddfod – dylai fod yn noson i'w chofio a bydd yr holl elw ariannol a wneir yn mynd tuag at Gronfa apêl leol Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Pris mynediad yw 50c (20c i blant) a'r noson i ddechrau yn brydlon am 7.00. Gyda llaw gobeithir cynnwys lluniau o'r Eisteddfod yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

GWOBR I'W THRYSORI: Ar noson yr Eisteddfod bydd gwobr pur arbennig yn cael ei rafflo. Dywedir hyn gan mai y prif a'r unig wobr yw ffon bren sydd wedi ei cherfio a hynny yn hynod o fedrus gan Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir sydd yn grefftwr o'r safon uchaf. Pan glywodd Mr Davies bod Eisteddfod am gael ei chynnal cynigiodd y ffon yn rhad ac am ddim ar gyfer ei rafflo a dymuna pwyllgor yr apêl leol ddiolch o galon iddo am ei gyfraniad.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dymuniadau da a ddangoswyd iddynt yn ddiweddar ar ddathliad eu Priodas Ruddem.

## CABAN BWYTA CHWAREL DINORWIG




# TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss N. Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU: IMr a Mrs William Lewis Stringer Aberffraw, tad a mam Mrs Katie Roberts, Tainewyddion ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ddydd Sadwrn Tachwedd 14eg. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

COLEG BALA: Trefnwyd penwythnos ar gyfer Ieuenctid Ysgolion Sul Cylch Arfon yng Nghanolfan Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala Tachwedd 13-15. Ymysg y rhai fu yno oedd John Elwyn Jones, Mark Wyn Jones a Tudor Wyn Jones, Dolwen. Trefnwyd rhaglen ddiddorol a chynhwysfawr ar eu cyfer.

ADFERIAD BUAN: Cipiwyd Lisa Shepherd wyres Mr a Mrs R. Wynne, Gelliod, merch Mr a Mrs Shepherd, Llanfairfechan, yn sydyn o'r ysgol yn ddiweddar i Ysbyty Gwynedd. Wedi triniaeth lawfeddygol mae Lisa'n gwella'n foddhaol – ein dymuniadau gorau am adferiad buan iddi.

MARWOLAETH: Tachwedd 13eg, yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Myfanwy Jones, 69 mlywdd oed o 7 Maes Gerddi, Tan-y-coed priod annwyl y diweddar Mr William Edmund Jones a mam annwyl Diana, Lily, Bertie, Arthur, Ellen, Gwen, John, Alwyn, Veronica ac Anita, a nain a hen nain hoff.

Bu angladd Mrs Myfanwy Jones ddydd Mawrth, Tachwedd 17, Y Parch John Morris yn gwasanaethu – angladd cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor, am 1.30 o'r gloch. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'r plant a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

# NANT PERIS

Gohebydd; Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs Elen Griffiths, Awelon yn ystod y mis. Cydymdeimlwn fel ardal gyda'i merched a'i mab, Joyce, Hilary, a Meirion a'u teuluoedd, hefyd hefo Selina a Tommy Morris ei chwaer a'i brawd.

DIOLCH: Dymuna teulu y diweddar Mrs E Griffith, Awelon, Nant Peris ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ac hefyd am yr arian a dderbyniwyd tuag at Apêl y Sganiwr Ysbyty Gwynedd.

Y Foelas

CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG

CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS

**Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon (0286) 4652**

**Emyr Jones**

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon LLANRUG

Caernarfon 3513

**GERAINT OWEN**

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

# CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn y**

**Gwynedd Hotel & Restaurant**

**LLANBERIS 870203**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



ROYAL VICTORIA HOTEL

GWESTY BRENHINOL VICTORIA

LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL

oddi wrth

***WESTY BRENHINOL VICTORIA LLANBERIS***

FFÔN: LLANBERIS 870253



***NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH***

***Y TEULU RUDKIN***

***LLANBERIS***



CYFARCHION Y TYMOR

oddi wrth

**H.E. HUGHES a'r MEIBION**

870 902

870 444

ac 872200

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth

**Mr a Mrs Shipley a'r Staff**

**Siop Spar**

**STORFA PADARN**

**Llanberis 870150**

**Digonedd o fwydydd ar gyfer y Nadolig!**

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

# KMP LLANBERIS

**DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN**

Dim bysus ar ôl 7.30 p.m. o'r nos cyn y Nadolig tan ddydd Sul 27 Rhagfyr

---

## SIOPAU COED

STRYD FAWR

**LLANBERIS**




---

Dymuna
Mervyn, Jill, Helen
a Jenny Jones

## CASTLE GIFT SHOP

**LLANBERIS Ffôn: 870379**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

**Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy**

---

**MO & IVOR COX**

## CELTIC HOUSE

**Stryd Fawr**

**LLANBERIS**

**Ffôn: 871388**

Darluniau a phethau pren ar gyfer y Nadolig!

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll.**

---

## SEION

CREATIVE
DESIGNER
TEXTILES

**Dymunwn Nadolig Llawen i'n Cwsmeriaid oll.**

Ar gau Rhag. 25–27
a Ionawr 1af yn unig.

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

## HAIRLINES

STRYD FAWR

**LLANBERIS**


**870328**

CYNLLUNWYR GWALLT
YN ARBENIGO MEWN TORRI

**Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR**

---

**Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa**



# SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll**

CYFARCHION NADOLIG

LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Michal a Brigid Moran a'r plant**

**Sea Fresh Chip Shop**

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth

**Vera, Haydn a John**

**SIOP CHIPS**

SNOWDON VALLEY
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

**PRINCE OF WALES**
**LLANBERIS**
**870708**

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–
**Nos Sadwrn**
Canu Cymraeg efo'r organ
**Nos Wener**
Adloniant Byw

**ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.**

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!
GWERTHWR SWYDDOGOL
Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY, MAX FACTOR
Ffilmiau a chamerau KODAK a FUJI

*Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau am brisiau cystadleuol*

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Wil a Garvin**

**W.G. ALLSUP**
Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES

PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**GARTH MAELOG**
**PET CENTRE**
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

**Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!**



**Llanberis Art & Craft**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Ffôn: LLANBERIS 870597

**Padarn Lake Hotel**

STRYD FAWR
LLANBERIS
870260

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty.

**CYFARCHION Y TYMOR**

**i bawb yn yr ardal**

oddi wrth

**TRÊN BACH LLYN LLANBERIS**



---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

**CHICO A ROSE**

龍 騰 樓

**BWYTY TSINEAIDD Y**

# DRAGON

**38 STRYD FAWR**

**LLANBERIS 872205**

hefyd

翠谷 *Chico Meat & Wine*

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

**PAT A JOHN**

**TŶ BWYTA**

**Stryd Fawr**

**(Drws nesaf i Fanc y Midland)**

**LLANBERIS**

BWYD BLASUS AR EI ORAU

---

**SEREN**

**47 STRYD FAWR**

**LLANBERIS 871060**

BWYDYDD IACHUSOL FFRWYTHAU A LLYSIAU YN FFRES O'R FARCHNAD

**Dymuna Barbara a Peter Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i gwsmeriaid hen a newydd**

---

# CELF Y COPÄON
# MOUNTAIN ART



**STRYD FAWR**

**LLANBERIS**

**870925**

am luniau mynyddoedd, peintiadau, printiadau, posteri a ffotograffau.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB.

---

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

oddi wrth

**W.J. DAVIES**

# MODURDY'R WYDDFA

**LLANBERIS Ffôn: 870225**



**M.O.T.**

**Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos**

Hefyd

**JOHN WHITE**

# THE BODY SHOP

**LLANBERIS**

**★Trwsio wedi damweiniau**

**★Ailsbreio**

**★Curo paneli**

---

**CARTREF PRESWYL HENOED**



# BRON ERYRI

**LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I DRIGOLION Y CARTREF A DARLLENWYR ECO'R WYDDFA ODDI WRTH Y PERCHENNOG NEWYDD**

**MRS. EIRIAN MALI S.R.N. A'R HOLL STAFF**

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lifft at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftydd
- Bath-medic

**Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdetihasol Gwynedd**



MWY O GYFARCHION O LANBERIS

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
FFRWYTHAU GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS
870301
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# D & E

**Dinorwig House**

**LLANBERIS 870300**

Dewch atom ar gyfer anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu. Nwyddau ffansi, Cardiau Nadolig, Papur Lapio etc.

# MYRA'S

**44A STRYD FAWR**

**LLANBERIS**

**Ffôn: 872361**

Dymuna Myra a Nigel Starkey ddiolch i'r llu cyfeillion a'u helpodd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

# Maxelle's

**(Perchnogion Mr a Mrs M. Thomas)**

**Stryd Fawr**

**Llanberis 871427**

Dewis rhagorol o ddillad hamdden, eitemau ategol a gemwaith. Anrhegion Nadolig delfrydol,

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn**

**Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd**

# FORMAG

**Stryd Fawr**

**Llanberis 870501**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

**Ifor a Margaret**

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

**Am anrhegion Nadolig a werthfawrogir trwy gydol y flwyddyn**

Byddwch gynnes a chlyd yn nhywydd garwaf y gaeaf hwn! Efo'n
* sanau a sweaters trwchus
* dillad thermal
* capiau a menyg gwlân
* cotiau ac esgidiau dal dŵr

i gerddwyr, ffermwyr ac ati, 'does dim esgus ichi wlychu na rhynnu.

Profwch rinweddau anhygoel ein sweaters a siacedi HELLY HANSEN FIBRE PILE. Yn gynnes fel tost, gellir eu golchi mewn peiriant ac maent yn para am hydoedd.

Cofiwch – i ddringwyr a llawer mwy!

# Joe Brown

**CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST**

**Ffôn: LLANBERIS 870327**

**Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post) 069 04 205**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

**Nadolig Llawen i chwi oll oddi wrth Ken ac Ann Hughes**

# Y GLORIAN

**Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman**

**LLANBERIS**

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol. Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd

**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL EICH ANGEN

AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

**Gwesty**

# Dolbadarn

**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.**

# GALW DDOE I GOF

*Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch Mrs Mem Pritchard.*

**Ers talwm iawn pan oeddwn i yn mynd i Ysgol Bodfeurig, mi ydw i yn cofio plant yr ysgol yn gwneud cyngerdd i wneud pres i brynu piano. Harmonium bach hen iawn oedd yno ar y pryd.**

Roedd un o'r genod wedi cael dillad newydd ac yn canu ar ben ei hun, ond canu yn y côr oeddwn i ac yn teimlo yn bwysig iawn. Mi oedd o yn gyngerdd da a mi gawsom ni ddigon o bres.

Y diwrnod doth y piano oedd y plant i gyd yn sefyll yn un rhes fawr, a phob un yn cael trei i chwarae dipyn arni.

Yn ysgol Bodfeurig oedd dosbarth 3,4,5,6, a 7 yn yr un ystafell, a twrw oedd yno hefyd run fath a Ysgol Sul yn llawn ei nerth. Mi oedd desg y prifathro Mr Emmamuel Davies yn y canol ac mi oedd yn gwylio pawb. "Crystyn" oedd ei ffug-enw, ac mi oedd o yn curo yn ddidrugaredd, yn enwedig yr hogia hynaf yn yr ysgol. Mi fydda Mr Davies yn lluchio llyfra mawr trwm at ei pennau, ac oni bai eu bod nhw yn medru symud o'r ffordd yn ddigon sydyn mi fasa yn ei brifo yn arw. Am ei fod yn methu hefo'r llyfra, mi oedd o yn gwylltio nes oedd o yn dawnsio.

Roedd Johnny fy mrawd yn cael cweir bron bob dydd, ond doedd o ddim yn byhafio llawer gwell. Oedd yn mynd i'r "cloakroom" i gael ei chwipio, ac un waith roedd o wedi pacio tu ôl ei drowsus hefo llyfrau ysgrifennu nes oedd o yn methu cerdded bron.

Byw yn rhy bell ac yn gorfod mynd â'n cinio hefo ni i'r ysgol. Pan oedd hi yn braf yn yr haf bwyta allan dan y coed oedd o amgylch, ac yn y gaeaf bwyta i mewn wrth y tân. Mi oeddan ni yn gorfod gweithio fel felan yn yr hen ysgol tan bedwar o'r gloch, ac wedyn bydda Mr Davies yn dweud y pader – yn cau ei lygaid yn sownd nes bydda ei dalcen o yn leins i gyd a dweud "Lighten our darkness we beseech thee o Lord."

Oedd na ddim gair o Gymraeg yn cael ei siarad yn yr ysgol, and amser chwarae oeddan ni yn siarad ac yn chwarae yn Gymraeg. Clywais i erioed ddim o'r athrawon yn siarad gair o Gymraeg. Tua'r flwyddyn 1909 oedd hi, a'r merched yn gwisgo sgertia llaes at y llawr a hetia mawr hefo bob math o drimins arnynt.

Yn y coed wrth Ysgol Bodfeurig oedd na garreg fawr wedi cael ei gwisgo yn llyfn, ac yn sgleinio ar ôl cenedlaethau o blant fod yn sleidio i lawr ar ôl ysgol bob dydd.

Yn byw yn "Gefnan" ddim yn bell o lle'r oeddan ni yn byw, oedd na hen ferch Catrin Jones yn cadw tŷ i'w brawd. Roedd hi yn ffeind iawn hefo ni, a byddwn i yn mynd yno i gysgu weithia.

Yn amal iawn bydda Catrin Jones yn gwneud teisen afal ar blat mawr crwn. Doedd hi ddim yn plicio yr afalau ond yn ei sleisio nhw croen a chwbwl i'r plat, a teisen flasus oedd hi hefyd. Fydda Johnny ni yn mynd i edrych drwy ffenest gegin Catrin Jones bob dydd wrth fynd adra o'r ysgol i edrach oedd na deisen afal. Amser hynny ddim tynia tenna fel rwan oedd yn cael ei defnyddio i grasu bara popty bach ond desglau mawr haearn. Roedd Catrin Jones yn gwneud teisen gymysg fawr yn un o'r dysgla yma, ac mi fydda Johnni a fi a Nel yn cael tamed bob amser. Roedd yr hen wraig wedi gwirioni hefo Johnny fy mrawd, ac mi rydw i yn siŵr ei bod hi wedi bod hiraeth ar ôl i ni fynd oddi yno i fyw.

'Roedd 'na goed mawr hyfryd yn tyfu ym mhob man o gwmpas cyn iddynt gael eu torri amser Rhyfel 1914 – – "coverts" oeddan ni yn eu galw nhw. Mi fydda ni yn chwarae yn y coed, ac os bydda hi yn bwrw roeddan ni yn berffaith sych. Roedd y llawr wedi cael ei guddio yn dew efo nodwyddau pinwydd nes oedd o fel carped, a mi fydda ni yn chwarae tŷ bach am oriau maith. Hel llawer o be fydda ni yn alw yn "Degins" (darnau o lestri lliwgar wedi torri) i wneud y tŷ bach yn hardd. Gwneud brwsh llawr hefo brigau a gwneud teisen hefo mwd. Llechan i wneud step y drws a hel mwsog i wneud mat wrth y drws. Roedd wiw i chwi fynd i mewn i dŷ bach rhywun arall heb gael gwadd.

# WYTHNOS PLANNU COED

**1987 ydy Blwyddyn Ewropeaidd yr Amgylchedd ac mae'r Gwarchodwyr Cefn Gwlad yn lansio eu Cynllun Coed Cymuned yn ystod wythnos Plannu Coed.**

Mae ein sefydliad wedi bod yn ymarferol weithgar gyda chadwraeth am dros 25 mlynedd. Heddiw mae dros 45000 o blant ysgol, grwpiau ieuenctid, y di-waith a gwirfoddolwyr yn gweithio ar rhyw 3000 o safleoedd dros Gymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Mae eich swyddfa lleol yma ym Mangor yn trefnu gwahanol brosiectau gyda hyfforddiant ym medrau cadwraeth gan gynnwys ffensio, creu pyllynnau a lleoedd i astudio natur. Hefyd trefnwn sgyrsiau yn ogystal â gŵyliau cadwraeth.

**Pam felly yr angen i blannu coed?**

I ail-blannu coed sydd wedi eu colli drwy afiechyd, masnach neu ddatblygiad.

I ofalu am loches i fywyd gwyllt.

I greu amgylchfyd deniadol.

I roi cysgod rhag efffeithiau gwyntoedd

I gynhyrchu'r rhan fwyaf o'n hawyr iach.

**Sut ellwch chi helpu? Mae'n hawdd.**

Unwaith y dewisiwch eich safle y cwbl sydd rhaid wneud ydy gofyn am ganiatâd ysgrifenedig, y tir-feddiannwr a chael grŵp o bobl sy'n fodlon i blannu a gofalu am y coed.

**Rhown ni**


Mathau dethol o goed cynhenid AM DDIM

Defnyddiau ar gyfer plannu AM DDIM

Defnydd o'r celfi AM DDIM

Hyfforddiant a chyngor AM DDIM

Os am chwaneg o wybodaeth am y cynllun hwn neu gynlluniau eraill cysylltwch os gwelwch yn dda, â: Swyddfa Gwarchodwyr Cefn Gwlad, 378 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YE, neu ffoniwch Bangor 354050.




Gwarchodwyr Cefn Gwlad
Conservation Volunteers

Llenwch y ffurflen a'i hanfon i'r cyfeiriad isod mor fuan ag sydd bosib os gwelwch yn dda.

**SEFYDLIAD** ..........................

**ENW'R TREFNYDD** ................

**CYFEIRIAD** ..........................

..........................................

..........................................

**FFÔN: Dydd** ..........................

**Nos** ..........................................

**DISGRIFIAD BYR O'R SAFLE PLANNU**

..........................................

..........................................

..........................................

**PWY FYDD YN EDRYCH AR ÔL Y COED?**

..........................................



**Barrug**

Un nos o heth taenwyd brethyn arian
Yn gwrlid dros ddyffryn
Gyda'r wawr o lawr y glyn
Dygwyd y llwyd ddilledyn.

John Roberts
Llanrug





**TACSIS WEBB**

**22 BRYNTIRION** **PENISARWAUN**

Ffôn: Llanberis **870145**

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos**
**Gwasanaeth Maes Awyr**
**a Phorthladd**
**Gwaith Contract**

**SELWYN MORRIS**

**Adeiladwr a Threfnydd Angladdau**

**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 2841**

# ECO'R IFANC


## CWM YN Y CANOL

Y CLWB: Ym mis Medi ail ddechreuodd y Clwb am y trydydd tymor, ond y tro hwn dan arweiniad Glyn Tomos o Ddinorwig, cyn olygydd Sgrech. Cynhelir y clwb bob nos Iau yn y ganolfan. Ceir nifer o adnoddau chwaraeon yno fel byrddau pŵl, snwcer, tenis bwrdd a dartiau, ond gemau i'r bechgyn yw'r rhain yn bennaf. Yn ddiweddar bu bechgyn yn ymweld â Chlwb Llanrug a buont yn chwarae pêl droed 5 bob ochr ond heb fawr o lwyddiant.

Gobeithir cyn bo hir gael noson i'r genod yn unig. Yn y cyfamsar cafodd y clwb noson i'w chofio ar Tachwedd y 5ed pryd y cynhaliwyd tân gwyllt yn y cae chwarae. Noson i'r pentref cyfan oedd hon ac un o weithgareddau'r clwb. Yn ogystal bu'r rhieni'n paratoi cŵn poeth ac yna'n cystadlu'n erbyn aelodau ar y gemau. Casglwyd £40 at y clwb a dengys hyn frwdfrydedd pobl ifanc Cwm-y-glo.

Einir






NI YDI GENOD Y CAFFI
Mae'r hogiau yn cwyno nad yw'r coffi yn ddigon poeth. Maent hefyd yn cwyno mai genod sydd yn y caffi o hyd. 'Rydym yn gwerthu pob mathau o bethau fel Mars, Skittles, M and M's, Kit-Kat a da-da ceiniog. 'Rydym hefyd yn gwerthu te a choffi ac mae'r genod yn ei wneud oherwydd bod mwy o hwyl gyda'r genod na'r hogiau.
Ceri a Caren.



*Pencampwr tenis bwrdd y clwb?*

DIOLCH YN FAWR IAWN
Mr Gwilym Williams
Mrs Margaret Williams
Mr Gwyn Hefin Jones
Mrs Ifanwy Jones
Mr Cledwyn Jones
Mrs Susan Jones
Mrs Veronica Williams
Mrs Lou McKerekar
Mrs Catherine Foulkes
Mr Glyn Tomos
Mr a Mrs Graham Hobby am y trydan.
Einir Gwyn am dynnu lluniau gwirion.
Gwesty'r Snowdon.
Dylan Pierce Williams am y posteri.
ac i bawb o'r Cwm a gyfrannodd tuag at y Tân Gwyllt.

## NOSON TÂN GWYLLT



*Pwy sydd wrthi'n brysur ..... (Y ni!!!!! — Y mamau)*

NOSON TÂN GWYLLT 1: Ar nos Iau Tachwedd y 5ed, yr oedd bron bob tŷ yng Nghwm-y-glo yn wag, a phawb allan ar y Cae Chwarae yn mwynhau eu hunain yn gwylio coelcerth anferth yn llosgi a Guto unwaith eto ar ei ben; yn gwylio arddangosfa dân gwyllt ac yn bwyta nifer fawr o gŵn poeth.

Trefnwyd y noson gan Glwb Ieuenctid Cwm-y-glo a dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd i'r penttef gael Noson Guto Ffowc cystal.

Wedi i'r cwn poeth orffen, a'r roced olaf gael ei thanio i'r awyr, aeth y rhan fwyaf o'r dyrfa i Ysgol Gymuned Cwm-y-glo i chwarae Snwcer, Pŵl, Tenis Bwrdd neu ddartiau.

Catrin

NOSON TÂN GWYLLT 2: Dechreuodd y noson ddifyr yma am chwech o'r gloch yn y Cae Chwarae lleol. Yr oedd y Clwb wedi casglu digon o arian i brynu digon o ddewis o dân gwyllt da. Yr oedd plant y pentref wedi mynd o gwmpas i gasglu digon o goed a phethau felly i roi ar y goelcerth, ac ar y nsoon llosgodd y goelcerth fawr yn grimp.

Yr oedd y mamau i gyd yn ddigon o hwyl i helpu i wneud y cŵn poeth, a'r diodydd i'r plant a phobl lwglyd. Ar ôl y tân gwyllt ddod i ben aeth pawb yn ôl i'r Ysgol Gymuned i gael hywl ar rai o emau'r clwb. Hefyd yno 'roedd siop, a oedd yn cael ei rhedeg gan Carys, Caren Debbie a Ceri. Mae'r ddwy ohonom ni a phawb arall mae'n siŵr gennym wedi mwynhau noson arbennig o lwyddiannus!

Carys a Nia



*Mr. Jones yn trio ei orau glas!*




*Ysgwn i os mai tocyn fi ddaw allan o'r het?*

# CORNEL Y PLANT IAU

**Bydd y Nadolig yma ymhen dim! Dyma ychydig o bethau i chwi eu gwneud dros yr Ŵyl.**

**Beth am ysgrifennu stori fach i'r Eco yn ystod y gwyliau os cewch chi funud i'w sbario. Anfonwch eich gwaith i 'Eco'r Ifanc' Pant-Bryn-Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug, a chofiwch roi eich enw a'ch oedran yn glir ar eich llun neu stori. Mi fydd 'na wobr i'r gwaith gorau!!**



**PÔS MIS RHAGFYR**

1. Sawl llythyren 'N' sydd ym misoedd y flwyddyn?
2. Nid --- popeth melyn.
3. Pwy oedd yn 'eistedd ar ben y tô'?
4. Sawl lliw sydd yn yr enfys?
5. Sawl coes sy' gan octopws?


**Dyma lun bach i roi hwb i rai ohonoch chi. 'Diwrnod yn y Syrcas'. Fe hoffwn i fod yn glown ... Coco ydy fy enw i, rydw i'n byw yn .... Meddyliwch!! Gwobr i'r stori orau!!**



**Atebion:** 1. 4; 2. Aur; 3. Jac y do; 4. 7; 5. 8.

**Beth am liwio'r lluniau yma? Edrychwch yn ofalus ar y rhifau – yna defnyddiwch y lliwiau priodol:**
**Coch – 1; Brown – 2; Gwyrdd – 3; Gwyn – 4; Glas – 5; Du – 6; Pinc – 7.**





# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

**Cawn newid bach yr wythnos hon ac awn i fyd Englynion. Nis gwn pwy ydyw awdur pob englyn. Os gwyddoch chwi efallai yr anfonwch i ddweud.**

Nyth

Ni fu saer â'i fesuriad – yn rhoi graen
Ar ei grefft a'i drwsiad.
Dim ond adar mewn cariad
Yn gwneud tŷ heb ganiatâd.

Parch Glyn Roger Jones, Talybont, Ceredigion.

Bwthyn

Bwthyn heb fawr o bethau – a fu'n nef
Gynt i nain a minnau
A brwyn o gors y bryniau
Yno'n do i ni ein dau.

Pwy?

Gwraig Lon

Mynych oedd ei chymwynas, – a gwên bur
Gwên i bawb o'i chwmpas,
Mwy ym medd mae mam addas
A gwraig lon dan garreg las.

Pwy?

Hugh Jones Bethel, Arfon yn un dri brawd a ddewiswyd yn falenoriaid yn y Cysegr Bethel. Yr oedd pedwar ohonynt. Lladdwyd y llall yn y Rhyfel.

Chwarelwr uwch rheolau – a blaenor
Nes blinodd ei arfau
Ei fodd ef oedd ufuddhau
I awdur y Gwynfydau.

J.R. Morris, Bethel.

Llongyfarchiadau i'r Bardd Isnant ar ddathlu ei ben blwydd yn gant oed.

Heno myfi yw'r hynaf – yn y fro
Am y fraint diolchaf
Yn raddol mi gyrhaeddaf
Gant ag un os gwynt a gaf.

Pwy?

I'w enaid byw nid y bedd
Oer a du ydyw'r diwedd.

Pwy?

Er cof am William Griffith, Bethesda

"Yr Hen Barc" – Awdur y Gaŵn Defaid William Morgan.

Dowch, ddefaid, uwch ei ddufedd – hir wylwch
Ar wely'ch bardd llwydwedd,
Ing i enaid cynghanedd
Yw'r Hen Barc yng ngraean bedd.

Glan Rhyddallt.

Y Ddau Frawd a laddwyd yn Ffrainc 1914-18.

Nid fan hon y dwfn hunant – dros y môr
Dyrys, maith gorffwysant,
Ond eu cofio'n gyson gânt
Ar y mynor ym Mhennant.

R. Williams Parry.

Glas y Dorlan

Rhyfeddais, sefais yn syn, – i'w wylio
Rhwng yr helyg melyn,
Yna'r lliw yn croesi'r llyn
Oedais, ond ni ddaeth wedyn.

Trebor E. Roberts

Pob cur a dolur drwy'r daith – a wellheir
Yn llaw'r Meddyg perffaith:
Gwaed y groes a gwyd y graith
Na welir moni eilwaith.

Ioan Madog

Y LLwybr Troed

'Rwy'n hen a chloff, ond hoffwn – am unwaith
Gael myned, pe medrwn,
Am dro, a rhodio ar hwn,
Rhodio, lle gynt y rhedwn.

J.T. Jones

Toriad Gwawr (O ben yr Wyddfa)

Y deg wawr yn waed i gyd – a'i llewyrch
Yn lliwio'r cyfanfyd:
Plygais fy mhen am ennyd
O barch i bensaer y byd.

William D. Jones

Dannedd Gosod

Claerwyn ddannedd bonheddig – yn gwenu
Mewn gogoniant plastig
Di-gur – di-nerfau – di-gig
O natur otomatig.

Robin Gwyndaf, Sain Ffagan.

Corned Beef

Here's a bull, canned and handy – in a tin
Packed tight with its jelly
And healthier, better you'll be
With the Bull in the belly.

John Gwilym Jones

Yr Hen Geffyl

O'i fraenar i fro awel – hwn aeth
Mewn hers dros y gorwel
Ie a dichon y dychwel
Eto'n y tun i hotel.

Alun Jones

Crsit ar y Groes

Yno a'i ddwylo yn ddolur – y bu
A'i boen yn ddifesur.
O'i fodd gwyrodd yn ei gur
A chydio mewn pechadur.

R. Mon Jones

Englyn Robert ap Gwilym Ddu i fab y bardd.

Peredydd Wyn

Gwelwn siomedig wylo – yn y dorf
Ddydd y dwys ffarwelio,
Ciliais heb fedru coelio,
Ddwyn i'r Bedd ei wyneb o.

Roberts ap Gwilym Ddu.

Edrych yn iau na'i hoedran
Yw hobi merch ym mhob man.

Pwy?

Os awyddus i weddi – o gwylia
Goledd ymadroddi,
Fel bo seiniau d'eiriau di
O dy enaid i weini.

Robert Henry Jones (Cennin)

## CEUNANT

**Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)**

GWELLHAD: Da yw deall bod Evie Davies, Tan-y-Graig adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn iddo adferiad llwyr a buan.

## FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Nos Fawrth, Hydref 21ain cynhaliwyd noson Chwaraeon pryd y cymerodd yr aelodau ran mewn cystadlaethau Tennis Bwrdd a Dartiau. Cafwyd noson ddiddorol yn cystadlu yn erbyn ein gilydd. Mr Huw Williams o A.D.A.S. oedd ein gwestai nos Fawrth, Hydref 28ain a darparodd gwis ar ein cyfer. Ymunodd aelodau o Glwb Dyffryn Ogwen â ni ac roedd chwe tîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Tîm Dyffryn Ogwen a enillodd y cwis. Diolchwyd i Mr Williams ac aelodau Dyffryn Ogwen gan Nia Jones, Caeathro, a diolchodd Trebor Thomas ar ran Dyffryn Ogwen am y croeso a gwasant. Mwynhaodd pawb y noson. Ffilm fideo a ddagnoswyd nos Fawrth Tachwedd 3ydd, Nos Fercher, Tachwedd 4ydd aeth Aled Jones, Eurwyn Jones, Rachel Griffiths a Helen Jones ar ran y Clwb i Gystadleuaeth Gwybodaeth Cyffredinol Clybiau Ffermwyr Ieuainc Eryri a gynhaliwyd yn Neuadd Ty'n Groes, Penmachno. Enillwyd y gystadleuaeth gan Glwb Rowen gyda Chlwb y Rhiw yn ail ac er na lwyddodd tîm Caernarfon i ennill cafwyd noson hwyliog dros ben yng ngofal y cwesiwn feistr Mr Williams, Betws Gwerful Goch.

Noson o Seiat Holi a gafwyd nos Fawrth, Tachwedd 10fed gyda'r cwesitynnau wedi eu darparu gan Ellen Hughes. Cafwyd noson ddiddorol dros ben.

Ar nos Lun, Tachwedd 16eg, cynhaliwyd Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Eryri. Ein tîm dan 16 oed oedd Gail Warnington, Sioned Parry a Nia Lynn Jones. Siaradodd Sioned am Ddiogelwch ar y Fferm. Cymerodd Gail ran Cadeirydd a Nia fel Diolchwr. Daeth y tîm yn gydradd ail a bydd Nia yn cynrychioli Eryri yng Nghystadleuaeth Cymru. Y tîm dan 21 oed oedd Rachel Griffith, Cadeirydd a Helen J. Jones, Eruwyn Jones a Rhian Thomas yn cymryd rhan mewn seiat holi eu testunnau oedd 'Ai teg disgwyl i Ffermwyr Ffrainc fwyta cig oen Cymru tra bo ffermwyr Cymru yn gwrthod yfed gwin Ffrainc?', 'Dylid mabwysiadu'r system 'gwota' ar gyfer cynhyrchwyr Cig a Grawn yn Ewrop er mwyn osgoi y broblem o or-gynhyrchu', a 'A ydych o'r farn y bydd sefydlu Marina ym Mhwllheli yn fuddiol i'r ardal?' Cawsant gryn hwyl ar gystadlu er na ddaethant i'r brig.


TACSIS
AMBERLINE
BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93)670555



J M JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

# "IEIR"

## Un arall o straeon Goronwy Owen

**"Hen Pecked". Dyna'r wir ffordd i ddisgrifio'r sefyllfa. Perswadiodd un o'm brodyr i mam newid y ceiliog. Roedd o wedi cael cynnig ceiliog da, am bris rhesymol – ceiliog ymladd. Yn ddigon anfodlon, lladdodd mam yr hen geiliog, ac fe gawsom ginio blasus, a'r wythnos wedyn, daeth ei olynydd, aderyn brith smart, hefo crib coch llydan, a choesau hirion cryf. Ond un peth oedd i ni ddynionach ei edmygu. Doedd yr ieir yn meddwl dim ohono, ac fe wariodd y creadur truan wythnos o adfyd a'i ben yn ei blu, yn rhy ofnus hyd yn oed i nesau at y cafn bwyd. Roedd pob un o'r ieir, ia yr olaf i glwydo, hefyd yn feistr corn arno, a'n nhad yn gorfod ei fwydo ar y slei, ar ôl i'r gweddill noswylio. Ceiliog ymladd wir. Aeth ef hefyd yn ginio Dydd Sul, ac ni welodd y ieir ei golli.**

Un anrheg priodas pwysig a gafodd fy rhieni gan Taid a Nain Llainwen, oedd ceiliog a iâr. Nid yn unig roedd yn anrheg ymarferol, roedd yn anrheg symbyliadd hefyd, yn argyhoeddi bod yna fwyd yn y cartre bob amser. Ar ddechrau'r ganrif, roedd peth fel hyn yn bwysig, a thra roeddwn i'n fachgen, roedd yna ieir yn waelod yr ardd. Cawn fy neffro gan glochdar ceiliog, a gwyddwn yn gynnar fod clwcian iâr yn golygu wŷ arall yn y nyth. Adeiladodd fy nhad gowt iddynt yn erbyn tŷ cyntaf Ianci, ond bob gaeaf byddai'r adar yn cael rhyddid y lle. O ganlyniad, roedd gennym ardd gefn yn glir o bryfetach, wedi'i gwrteithio'n dda, ac roedd blas hyfryd ar yr wyau, er i ni erioed glywed am ffasiwn beth â "Free Range."


Ar y cyfan, roedd yr ieir yn ddigon hapus, yn enwedig wrth eu bod hefyd yn gallu cerdded trwy dwll yn y wal i erddi Tangraig, dwy ardd oedd pryd hynny yn wyllt, ond o dro i dro, digwyddai hwyl a miri.

Un diwrnod, daeth ci rhywsut i mewn i ardd Tangraig, a dychryn yr adar. Clywsom y ffwdan a'r twrw, a rhedodd fy mam allan gan alw arnaf. Dros ben y wal a fi, ddim ond i weld y ci yn diflannu ar ôl iâr i Rock Teras. Dyna lle roeddem, fel Band Bremen, y fi'n ceisio dal y ci, a'r ci yn ceisio dal y iâr, nes y daethom i ben Rallt Goch, lle neidiodd y ddau dros y wal. Cyrhaeddais innau mewn pryd i weld yr iâr yn hedfan fel Shuttle Cape Canaveral, o ben y clogwyn i lawr i gefn tai Stryd Goodman islaw.

Es rownd i chwilio a holi, ond chefais i ddim hanes o'r greadures. Rwy'n siŵr fod pobol Stryd Goodman yn bobol dda a gonest, ond alla neb ddiystyru'r ffatih mai gwyrth fendithiol oedd i ginio Dydd Sul, ddisgyn o'r nefoedd ar ringiog drws cefn. Pa siawns oedd gen i, hogyn bach yn holi

"Plis, yda chi wedi gweld iâr ddu yn dod i lawr o fyny fancw?" Mi fyddai'n haws holi'r maffia am aur.

Yn nhŷ cyntaf Ianci, tirgai gwraig weddw, ac roedd ganddi wrcath lwyd fawr, oedd yn elyn mileinig i'r ceiliog. Dim ond i'r gath ddangos ei thrwyn rhwng y drain, oedd y ceiliog yn rhuthro amdani fel rhyw lew ffyrnig. Un dydd



digwyddodd hyn tra roedd fy nhad a minnau yn trin yr ardd, a'r peth nesaf roedd y ceiliog oedd dilyn y gath i'w libart ei hun. Chlywsoch chi ffasiwn helynt. Rhwng sgrechiadau'r weddw, chwrnu'r gath a chlodchdar bygythiol y ceiliog, barnech fod y byd a'i ben i lawr.

"Brysia. Cer drosodd i nôl y ceiliog 'na," meddai nhad. Dringais drosodd mor gyflym ag y gallwn, i ganfod fod y deryn wedi erlid y gath i mewn i'r gegin fach. Sefais ar drothwy'r drws mewn syfrdan i weld yr hen wraig, y gath a'r ceiliog yn creu syrcas o gwmpas y bwrdd yn yr ystafell fechan. O'r diwedd glaniodd y ceiliog ar ben hanner torth oedd ar y bwrdd. Neidiais inna i afael ynddo, ond roedd y deryn yn rhy gyflym i mi, ac fe gododd heibio fy mhen, a'r bara yn sownd yn ei grafanc. Allan a fo trwy'r drws agored i ben y wal, a'r weddw yn gweiddi

"Mae o wedi dwyn fy nhorth i. Y cythral bach. Deudwch wrth y ceiliog 'na am ddod a'n nhorth i'n ôl."

Yr ieir fwytaodd y dorth. Bu rhaid i mi fynd i fecws Snowdon i nôl torth arall iddi hi.

Ci da oedd Gel, mwngral hefo tipyn o whippet ynddo. Cododd lawer i wningen Ar Ddol Fawr, ag ar ochr Dinas, ond ar un amser, cafodd y cast o ddwyn wyau, a'u bwyta. Wedi darganfod hyn, cofiaf fy mam yn torri wy yn ofalus i bowlen, llenwi'r plysg gwag hefo mwstard, a rhoi peth o'r gwynwy yn ôl. Wedi cau'r ŵy orau gallai, aeth ag ef i waelod yr ardd, a'i roi lle gallai'r ci ei gael yn rhwydd. Toc, daeth Gel heibio ar ei hynt, a llowciodd yr ŵy. Eiliad wedyn, roedd o'n rhuthro i'r weirglodd, lle bu'n yfed galwyni o ddŵr o'r afon fach. Dyna'r tro olaf iddo ef edrych ar ŵy.

---

**Yr Ysgrif fuddugol yn 'Steddfod Bentref Llanrug oedd eiddo Mrs Mair Humphreys, Minffordd:**

# 'SGOTA

**Dyma destun 'bachog' os bu un erioed! Ceir rhai ohonom yn 'sgota gŵr neu wraig; 'sgota pysgod wrth gwrs, ond 'sgota am s-w-y-dd 'rydw i ar hyn o bryd, hynny yw os OES un ar gael y dyddia' yma ynte?**


**Gwyn eu byd y rhain sy'n dyfalbarhau? Po fwyaf yr ymarfer, mwyaf y meistroli? Tybed. Onid dyna'r dywediad mwyaf gorffwyll a'r ynfytaf a ddyfeisiwyd erioed – cyn belled ag y mae cyfweliad yn y cwestiwn beth bynnag. Fel hyn y darllen fy nyddiadur 'Sgota' am y mis diwethaf – 7fed – Abertawe – oer iawn, dim hyd yn oed 'blwc'; 10fed – Caerdydd – cynhyrfais rywfaint ar y dyfroedd; 15fed – Bangor – rhy wyntog o lawer i 'sgota' – siawns na fyddaf yn oriel yr anfarwolion yn bur fuan ddarllenwyr! A beth am y Cynghorwyr (Y PYSGOD MAWR) bondigrybwyll – ond dyna fo, rhaid iddynt ennill eu bara menyn rywsut (a hynny mae'n amlwg ar ein côst ni'r trueiniaid) os na allwn ni o dan eu gordd wneud hynny!**

Pwy fydd y Panel yfory tybed? PRYD i gyrraedd y fangre sancrisanct? Os cyrhaeddaf CYN deg o'r gloch byddant yn siŵr o feddwl mai rhyw greadur nerfus, niwrotig fyddaf (ond credwch fi nid wyf ymhell o fod erbyn hyn); Dâl hi tybed i gyrraedd ar ben deg – dwed y Sais bod prydlondeb yn rhinwedd di-hafal – ac onid yw'r Sais (fel arfer) yn ei le? Ac eto, os cyrhaeddaf ryw funud neud ddau wedi'r amser, dengys hynny berson or-hunan-hyderus, di-ofid mewn enbydrwydd, a chredwch neu beidio mae'r ansoddair diwethaf yna yn bur addas yn y cyswllt yma. Ond beth am yr ESIAMPL euraid i'r genhedlaeth ifanc? Dyna ti eto'r hen Sais, wedi grochfygu am yr ugeinfed tro (ac nid gorliwio yr ydw i chwaith – erbyn hyn ddarllenwyr mae gen i amcan go lew am bob Llan ac Aber drwy Gymru benbaladr) DEG O'R GLOCH amdani te – i'r gâd!

Bore cyfweliad perffaith – (oer 'stafell oer eto mae'n debyg nes bydd fy nannedd yn clecian) cymylog iawn (os caf gwestiynau rybweth yn debyg i'r cyfweliad hwnnw yn ... – gwell peidio dweud lle, pur gymylog fydd fy meddwl inna' hefyd); gwyntog – (y cwestiynau yn cael eu gwyntyllu ataf o bob cyfeiriad, fel arfer). Tyrd yr hen foi – beth am y siwt orau 'na – Na, gan bwyll, thâl hi ddim i fod yn rhy drwsiadus – dydy pysgotwr ddim yn gwisgo'i siwt ddydd Sul i bysgota. Dyma fi'n barod, ond wedi gor-molchi, ac yn drewi o'r 'sent-ar-ôl-shafio' geis i gan Bet y wraig acw, ac wedi gor-wisgo – fel arfer – pigo' mwyd a'i olchi i lawr hefo llond gwniadur o de llygoer – fel arfer! Neidio i'r car ail-law – fel arfer (oes RHYWUN am gymryd trugaredd arnaf?)

Rhaid i mi ymarfer yr atebion, gan y gwn y cwestiynau ar gof erbyn hyn. Do, Syr wedi cael blynyddoedd o brofiad yn y math yma o waith; medraf, mi fedraf gymryd trosodd ar fyr-rybudd; darllen, 'sgota, gwarndo ar fiwsig – miwsig clasurol wrth gwrs, ac mae'n rhaid i mi gofio fy hobi ddiweddaraf – golff (digon hawdd ei rhoi i fyny 'as a bad job' chwedl y Sais os byddaf yn llwyddiannus y tro yma!) Dyma'r fangre o'r diwedd – rhy hwyr i deimlo'n simsan 'rwan – i mewn a mi yn hyderus gan chwerthin ynof 'hun wrth gofio am rhyw hen bysgodyn (roedd o leiaf yn bedwar-ugain os nad mwy) yn pendwmpian a'i benelin yn beryglus o agos i ymyl y bwrdd; un arall yn gwneud cartŵn o'r Cadeirydd (un da oedd o hefyd) ond dyna ddigon o grwydro rwân, rho dy feddwl ar waith. Do, wir, mi geis hwyl reit dda arni y tro hwnnw – OND – yr un hen stori geis i ... "diolch Mr.... gadawn i chwi wybod &c., &c.. Bet yn fy nghyfarfod "ges ti ....." "Blwc? Naddo cariad."

Dyma fi bron ar yr amser, a chyn cael fy ngwynt ataf dyma rhyw lais anweledig o ryw bwll di-waelod yn gwaeddi, "beth yw'r enw os gwelwch yn dda" ac atebaf innau yn or-hyderus, er mawr syndod i mi fy hun, a châf fy arwain i ystafell byg-ddu – y mawredd – mae'r rhain mewn stâd druenus – bydd yn rhaid i mi ddangos tipyn mwy o hyder na'r lot yma. Wrth basio coes rhywun taflaf gâs sbectol i'r llawr nes 'roedd hwnnw'n diasbedain dros yr ystafell – teimlaf fy hun yn chwysu trostaf – baglaf ar draws coes arall – ymddiheuraf – cymeraf gadair a chymryd cip-olwg dros fy nghyd-bysgotwyr truan. Eistedda un ar ochr ei gadair – fel petai ar golsyn berwedig; ceisia un arall gael miwsig hefo'i fysedd oddi ar ochr y bwrdd; edrycha un arall yn syth o'i flaen fel petai mewn gwewyr; ac mae cymdetihas o ddynes yn taro ei throed i amseriad rhyw gerddorfa gûdd – y Trout Qunitet debyg!! Does bosib' nad oes gennyf rhyw siawns ymysg rhai o'r fath. Ond mae un ohonynt yn Codi "W-w-wel Mr .... gwnewch eich hun yn hollol gartrefol, p-p-peidiwch a bod yn nerfus o g-g-gwbl" meddai'r llais crynedig. DOES BOSIB? Mae'r ANHOSIB' wedi digwydd – HWN YW'R PANEL – Y PYSGOD MAWR – a minnau wedi colli nosweithiau o gwsg. Dyfal donc..... Pa gwestiynau gâf tybed – hynny yw – os bydd cwestiynau o gwbl y tro yma?



# YR HEN DRÊN CHWAREL

**Atgofion Goronwy O. Williams, 18 Maes Castell, Llanllyfni.**

**Fel y mae dyn yn mynd yn hŷn daw llawer o atgofion i'r meddwl. Cof da gennyf am gyfnod y dauddegau a'r tridegau pan oeddwn yn llefnyn ifanc yn y chwarel. Roedd y trên bryd hynny yn rhedeg o'r Gilfach Ddu i Bensgoins, uwchben y Felinheli. Deuai'r trên a gweithwyr i'r chwarel yn y bore, ac yna cludo llechi o'r chwarel i'r cei yn ystod y dydd.**

Roedd y trên yn cychwyn o Bensgoins am 6.00 y bore, ac ar ôl rhyw filltir o daith, yn aros ym Mryn Pistyll. Yma roedd yn codi dynion o Gapel Seion a Llanddeiniolen. Cyrhaeddai Bethel erbyn tua 6.00 a thynnu'r 'carriages' allan o'r cwt. "Tynnu trên" oedd ein disgrifiad ni o hyn. Ymlaen eto am Bensarn, dros Gob y Rhyd, a chodi pobol Crawia. Oddi yno i Bontrhythallt a "thynnu trên" eto yma gan fod criw mawr eisiau eu codi – o Lanrug, Bryngwyn, Tan y Coed, Ceunant a rhai o'r Waunfawr. Yma deuai chwarelwyr Penisarwaun ar y trên hefyd. Penllyn oedd y stop nesa, lle deuai pobl Brynrefail, Cwm y glo a'r Clegir i fyny; ac yna ar hyd Llyn Padarn nes cyrraedd y Gilfach Ddu erbyn chwarter i saith. O'r fan honno byddai'r gweithwyr yn cerdded i bob rhan o'r chwarel yn barod i ddechrau ar eu gwaith erbyn hanner awr wedi saith pryd y byddai'r corn cyntaf yn canu.

Am 5.00 byddai'r corn diwethaf, a dyna'r arwydd i bawb garlamu i lawr y gelltydd am y Gilfach Ddu oherwydd roedd y trên am adra yn cychwyn yn brydlon am 5.30 ac yn cyrraedd Pensgoins am 6.00. Amser hir bum diwrnod yr wythnos, a hyd 1.00 y pnawn ar y Sadwrn.

Yn ystod y dydd, llechi nid pobl oedd ar y trên. Pedair "ryn" y dydd, gyda cheir mawr haearn yn cario pedair wagan fechan, a rhyw 25 o'r ceir mawr ar bob "ryn". Roedd angen injian go gryf i dynnu'r rhain. Roedd tair injan stêm ar y lein, a'r rheini'n cael "maintenance" bob rhyw 5 neu 6 mis. Enwau'r injians oedd 'Felinheli, 'Dinorwic' ac 'Almathea' – a'r rhain yn werth eu gweld. Os yw fy nghof yn gywir, credaf mai enwau'r gyrrwr a'r taniwr oedd William a Tom Evans, dau frawd o'r Felinheli. Y giard oedd Owen Roberts eto o'r Felinheli. Tri "fitter" wyf yn eu cofio – George Rodrick, Bob Parry, a Hugh Richard Jones – a'r rheini'n gwybod eu gwaith yn iawn. Gallent dynnu'r injian yn ddarnau mân a'u rhoi i gyd yn ôl fel newydd.


'Rwy'n meddwl mai tua 16 o "carriages" oedd i gario'r gweithwyr – ac yn dal tua 60 yr un. Roedd yna "carriage" arbennig ar gyfer hogia Sir Fôn – ond dim ond ar fore Llun a phnawn Sadwrn roedd ei hangen. Byddai hogia Sir Fôn yn aros yn y barics drwy'r wythnos. Roedd yn rhaid iddynt gychwyn o'u cartrefi yn oria mân bore Llun – ar gefn beic lawer ohonynt – i Foel y Don, a dal y cwch ar draws i'r Felinheli. Deuent o'r Gaerwen, Llansadwrn, Dwyran, Llangaffo, Brynsiencyn a Niwbwrch; a rhai cyn belled â Llanerchymedd.

Bob 'dydd Gwener tâl' roedd "carriage" felen yn dod â'r cyflog i'r chwarel o'r brif swyddfa yn y Felinheli. 'Salŵn' oedda ni'n ei galw hi.

Roedd yn werth clywed y straeon ar y trên, nos a bore; tynnu coes a phob math o hwyl. Os byddai un o'r llafnau wedi cael cariad yn y dre ar nos Sadwrn, byddai'r stori yn y trên o'i flaen fore lLun.

Ar y ffordd adra' gyda'r nos byddai chwiban y trên yn dweud wrth bawb ei bod yn amser swper chwarel. Lob sgows fyddai hwnnw'n aml, ond roedd yn dda iawn ar ôl diwrnod caled o waith.

# APÊL AT BERCHNOGION CŴN



Llygrir ein strydoedd, ein llefydd chwarae a'n parciau gan faw cŵn. Cludir ef ar esgidiau i'n tai, y mae plant yn chwarae ynddo, y mae pobl yn gorfod ei osgoi gyda chadeiriau olwyn a choetsys, ac y mae'n broblem ychwanegol i bobl ddall.

**Y MAE'N PERYGLU IECHYD**

Y mae'r pryf TOXOCARA CANIS mewn llawer o gŵn. Os bydd wyau'r pryf hwn yn dod o'r ci ac yn mynd i mewn i'r corff dynol, gall achosi niwed difrifol i'r llygaid, yr ymennydd yr iau a'r ysgyfaint. Gall yr wyau fyw yn y pridd am fisoedd. Felly dylai'r rhieni ddysgu eu plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl chwarae, neu ar ôl chwarae efo ci.

**PEIDIWCH A BEIO'R CI**

**Gellir dysgu'r cŵn i faeddu yn yr ardd a gall y perchennog gael gwared â'r baw wedyn. Defnyddiwch bridd y pannwr i sychu'r baw a chladdwch ef yn yr ardd neu ewch ag ef i'r toiled. Os yw eich ci yn rhy hen i gael ei ddysgu ewch â sgwp, a bagiau hefo chi a chodwch y baw. Bydd yn gas gennych wneud hyn ar y dechrau, ond byddwch yn gwneud gwaith gwerth chweil – ac wedi'r cwbl does dim yn waeth na gadael y baw ar y llawr.**



**FELLY OS OES GENNYCH GI**

Cofiwch roi tabledi rhag llyngyr iddo'n gyson.

Ac yn fwy na dim –

Peidiwch â gadael i'r ci fod yn rhydd i faeddu ymhobman.

Peidiwch â mynd a'ch ci i faeddu lle y mae pobl yn cerdded a phlant yn chwarae.

**OS OES CI GENNYCH, Y CHI SY'N GYFRIFOL AMDANO.**

**Peidiwch ag anghofio am yr is-ddeddf**
**"Y mae'r sawl sydd â chi sy'n baeddu unrhyw lwybr yn troseddu."**
**DIRWY O HYD AT £50.**

# YNG NGWLAD Y BASC

## gan Y Gwalch

**Yr oedd y wawr ar dorri tros y Pyrenees. Toddai lliw yr awyr dywell wrth ddisgyn tua'r Dwyrain, a gwnai i'r pinaclau duon ymddagos fel asgwrn gên ddaneddog.**

**Yr oedd yn oer yn y dyffryn pan gerddais tua'r tŷ. Bu yn noson dawel, a chrogai hugan o niwl gwlithog tros y fro. Gollyngai'r coed ddafnau trymion o ddŵr ar y glaswellt, ac yr oedd f'esgidiau yn diferu. Gwthiais fy nwylo yn ddyfn i'm pocedi rhag oerni'r bore. Yn y pellter, cyfarthai ci yn fain.**

Yr oedd golau gwan yn ffenestr y tŷ pan gurais wrth y drws. Clywais ddau yn siarad Sbaeneg, ac yna, daeth gwraig i agor. Yr oedd fel pe newydd ddihuno, a'i llygaid yn drwm a chwyddedig, a'i gwallt du, llaes yn anhrefnus.

Gofynais iddi am ddŵr, a chymerodd hithau'r llestr o'm llaw a chau'r drws ar fy nannedd. Bu ychwaneg o siarad, ac yna, agorodd y drws eilwaith, a safai dyn yno. Eglurais fy mod yn gwersylla yn y fro tros nos, ac fod angen dŵr arnaf i'm boreufwyd. Mynnai i mi i fynd i mewn i'r tŷ.

Coed oedd ei wneuthuriad, a chanfyddais fy hun mewn ystafell a ddefnyddid i fyw ac i goginio. Yr oedd stôf fawr yn y gornel, a phentwr o goed o'i blaen. Uwch ei phen yr oedd amryw silffoedd yn cynnal llestri plaen, ac ar y mur gerllaw, yr oedd cerflun o'r Crist gwaedlyd croeshoeliedig, ac odditano safai radio newydd yn canu cerddoriaeth ysgafn, chwim. Yr oedd y llawr coed yn foel.

Eisteddodd y dyn wrth ford yn y gornel gan ddechrau bwyta rhyw gymysgedd dwym. Siaradai'r wraig ag ef yn gyson tra yn gweithio o gwmpas y stôf. Tywalltodd ddŵr o lestr pridd a safai yn y gornel.

Yn erbyn mur pellaf yr oedd gwely bychan. Ynddo yr oedd hen wraig yn cysgu. Anadlai weithiau yn drwm. Yr oedd ei gwallt yn fudr wyn, a'i thalcen fel darn o blisgyn ŵy a sychodd yn yr haul.

Deallais ei bod yn fam i'r dyn, a'i bod hi bellach yn rhy hen i godi yn y boreau i weithio. Gweithiai ei merch yng nghyfraith yn ei lle, a llafuriai y mab yn y caeau i gadw'r teulu rhag newynu. Ar y bwrdd yr oedd llestr yn llawn o olewydd a fflagon o win. Yfais wydraid ohono, a chynhesodd fy ngwaed.

Siaradai'r dyn am yr amser gynt pan oedd yn ieuengach; am rhyw bentref bach yn ne Sbaen lle carai wneud ei gartref, ond yr oedd amser, ac amgylchiadau wedi ei yrru i droed y Pyrenees i drin y tir serth, a chodi bywoliaeth o'r pridd bâs.

Yr oedd ei lygaid yn fychan a du dan ei ael guchiog. Gofynodd i mi am sigarennau baco melyn. Daliai'r wraig i symud ger y stôf. Agorodd ddrws y grât a thaflodd ychwaneg o goed i'r holwy. Gwisgai glustdlysau trymion, ac wrth iddi droi ei phen, curent yn erbyn ei chroen melynddu. Gwenai arnaf weithiau yn swil gam amneidio at y dŵr oedd yn twymo.

Cododd y dyn yn y diwedd ac aeth heibio i lenni trymion i ystafell arall. Dywedodd y wraig rhywbeth wrthyf, ond ni ddeallais hi. Toc, dychwelodd y dyn. Ar ei fron yr oedd yn cario baban wedi ei lapio mewn planced amryliw. Eisteddai gerllaw i mi, a siaradai yn ysgafn gan ogwyddo ei ben uwchben y baban.

Tynnodd y wraig y dŵr oddi ar y tân a llanwodd fy llestr. Yna croesodd yr ystafell a chymerodd y baban o freichiau ei dad. Eisteddodd ger y stôf a rhoddodd iddo ei bron. Cysgai'r hen wraig o hyd.

Rhoddodd y dyn ei gôt wlân amdano. Rhoddodd gusan ysgafn ar dalcen y baban, yna aeth at y gwely a chusanu ei fam. Codais innau fy llestr, ac aethom ein dau allan drwy'r drws.

Cerddasom ar hyd y llwybr gwlithog. Yr oedd yn ddigon golau erbyn hyn i weld gwaelodion yn coed. Ar droad y llwybr ysgwydasom ddwy law. Yna trodd y dyn ei gefn llydan a cherddodd i gyfeiriad y caeau bychain ar y llethr. Euthum innau yn araf i lawr y llwybr i'm gwersyll yn y dyffryn.

ÔL NODYN: Bydd stori leol o'r enw INTO THE MIST gan y Gwalch yn ymddangos yn rhifyn Rhagfyr o'r cofnodolyn chwarterol 'The Countryman'.






Cyfarchion Nadolig o

# DDEINIOLEN

---

CLOGWYN CLIMBING



Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth bawb yn

## CLOGWYN CLIMBING

DEINIOLEN Ffôn: 870551

---

**AR AGOR: LLUN – GWENER 8am - 10pm**
**SADWRN 9am - 10pm**
**SUL 10am - 5pm**

VG

## LATE STOP
**(D & A Supermarket)**

**STRYD NEWYDD**
## DEINIOLEN
**Ffôn 870171**

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**MYFI A LEN JONES**

## SIOP Y GORNEL

**DEINIOLEN**
**Ffôn: 870585**

- Nwyddau Groser
- Melysion
- Paraffin
- Gwasanaeth Danfon
- i'ch Cartref

---

DYMUNA CLARICE, DELYTH, JOHN a STAFF

## Y TARW
## BULL INN

**DEINIOLEN**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

**i gwsmeriaid a chyfeillion oll**

---

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

oddi wrth

**GWYN OLIVER JONES**

## Tafarn Datws Arfonia

**DEINIOLEN**
**Ffôn: Llanberis 870048**



---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**BRYMER, HILDA, NICOLA A LYNDSEY PARRY**

## SIOP CIGYDD

**BRISTOL HOUSE**
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870297**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

---

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

**DAVID, CAROL A'R STAFF**

## WELLINGTON INN

**Deiniolen**
**Ffôn: Llanberis 870227**

**Cwrw blasus – chwerw ar ei orau**

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**John Arwel a Jean Roberts**

## CABS DEINIOLEN

**4 FFORDD DEINIOL**
**DEINIOLEN**
**871591**



Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

## JONES + JONES

**FRON DEG**
**CLWT-Y-BONT**
**DEINIOLEN**

**Ffôn: LLANBERIS 870856**

ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
**oddi wrth**

# SLING
## Golygfeydd i Deledu a Ffilm

**Tabernacl**
**Ffordd Deiniol**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: Llanberis 872044**

---

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA**
**oddi wrth**
**bawb yn**

# ARFON GARAGE
## DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870287)

**Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn**

---

# THOMAS & JONES
## Gwydrwyr



**YR HEN SINEMA**
**STRYD FAWR**
**DEINIOLEN**
*Ffôn: Llanberis 870680 neu 870486*

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr.
Gwydro Dwbl, Drysau Patio a Ffenestri Aliwminiwm a P.V.C.

Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB oddi wrth CLIFFORD, DIANA, NIA RHIANNON AC EIRA

**Swyddfa'r Post**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: LLANBERIS 870283**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**BERYL AC OWIE HUGHES**
**Regent House**
**DEINIOLEN**
**Ffôn 870461**

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**

*.Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

---

**Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**



# BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
**Ffôn:**
**LLANBERIS 870232**
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

---

**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?**
**MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**
**YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!**
Cysylltwch â Dave Wood

# 'INSULAFLUE'
**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

---

*Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau*





**SIOP AMAN Stryd Fawr**
**DEINIOLEN** *Ffôn: Llanberis 871210 a 871089*

*Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu**

---

# OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

**GWASANAETHAU TELEDU**
**Ffôn: Llanberis 870545**

# DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Dachwedd 2il o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd.

Croesawodd y llywydd y wraig wadd, sef Mrs Pat Jones, Brynrefail, a roddodd inni arddangosfa o Waith Llaw. Cawsom noson ddifyr iawn a diolchwyd iddi gan Mrs Rita Parry Jones. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirian Jones. Dymunodd y Llywydd unwaith eto wellhad buan i Mrs Mary Thomas, Miss Kathleen Jane Jones ac i Miss Nancy Roberts, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Llongyfarchodd y Llywydd hefyd Miss Moeller, Mrs Beti Williams a Miss Nia Land, merch fach Mrs Janice Land, a Miss Delyth Wyn Price, merch Mrs Diane Price, ar ennill gwobrau yn Eisteddfod Gwaun Gynfi yn ddiweddar.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 7fed pryd y bydd y Cyfarfod Blynyddol a disgwylir Mrs Ann Nouch, y VCO, yno. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau.

DIOLCH: Dymuna Kathleen Davies, Barry, Malcolm, Carolyn a Hilary, 9 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w holl gymdogion, teulu a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr a thad annwyl, Gordon, ar y 27fed o Hydref. Diolch yn fawr i bawb.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar Hydref y 27ain bu farw Mr Gordon Richard Davies, 9 Hafod Oleu, Deiniolen yn 57 mlwydd oed. Roedd yn ŵr cariadus i Kathleen a thad annwyl i Barry, Malcolm, Carolyn, Hilary a'r diweddar Roy, hefyd yn daid annwyl i Kellie.

Chwarelwr oedd Mr Davies yn wreiddiol cyn symud i Ferodo yng Nghaernarfon, lle bu'n gweithio am rai blynyddoedd, a bu hefyd yn aelod o'r côr meibion am beth amser. Roedd yn ddyn poblogaidd a chymdeithasol, gyda diddordeb mawr mewn snwcer. Bu yn chwarae'n ffyddlon i dimau Deiniolen a'r Felinheli.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar Hydref 31ain a gwasanaethwyd gan y Parchedigion Richard Jones, Felinheli, a Trevor Lewis, Deiniolen gyda Gwen Griffiths wrth yr organ.

MERCHED Y WAWR: Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd Mrs Miriam Lewis. Darllenodd y llythyrau yn ymwneud â'r Mudiad, gan gynnwys un oddi wrth Edwina Curry yn diolch am yr ymateb yn ymgyrch 'Cancr y Fron'.

Penderfynwyd anfon cerdyn i bob aelod sydd yn yr ysbyty o hyn ymlaen. Anfonwyd cofion at Mrs Medwen Griffith a Miss Kathleen Jones sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Cafwyd noson addysgiadol iawn gan Mr Gareth Morgan, o dan nawdd 'Curiad Calon Cymru'. Rhoddodd ystadegau ar y cynnydd yng nghlefyd y galon a'r peryglon sydd yn codi o fwyta brasder ac ysmygu. Diolchwyd i Mr Morgan gan Mrs Miriam Lewis, a gofynnwyd cwestiynau gan amryw o'r aelodau.

Gwesteion y te oedd Mrs Miriam Lewis a Mrs J Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Jane C Hughes.

Daeth cynulliad da i'r cyfarfod ar Dachwedd 16 gyda Mrs Miriam Lewis yn y gadair. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifenyddes a chydymdeimlwyd â Mrs Kathleen Davies ar ôl colli ei gŵr, Mr Gordon Davies, a oedd wedi cael cystudd maith.

Da oedd clywed fod Medwen yn dal i wella ond yn dal yn yr ysbyty er hynny, ac fod Kathleen wedi gadael yr ysbyty ac ar hyn o bryd yn Nhyddyn Elan, Llanrug.

Croesawyd Mrs Williams, 2 Y Bwthyn yn ôl ar ôl methu dod i'r cyfarfodydd am sbel oherwydd gwahanol amgylchiadau.

Cynrychiolwyd y gangen yn Aberystwyth gan Mrs Megan Morris a Mrs J Eirlys Williams a chafwyd adroddiad ganddynt. Penderfynwyd anfon £10 i Apêl Nadolig Plant Mewn Angen y BBC.

Penderfynwyd gwneud casgliad ymysg ein gilydd i gadw'r addewid a wnaethom i ofalu am un o drigolion Fron Deg, Caernarfon at y Nadolig.

Aeth 12 o'r aelodau i Gapel Seilo, Caernarfon i weld 'Ddoe a Heddiw' gan Gangen Dwyfor, a chafwyd noson ddiddorol iawn.

Cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr yn dweud hanes ei thaith i Batagonia. Soniodd, gyda sleidiau, am y gwahanol drefi, pentrefi a dinasoedd, oedd mor wahanol i'w gilydd, y bu ynddynt, hefyd y Cymry a gyfarfyddodd yno, oedd yn ddisgynyddion o'r Cymry cynnar a ymfudodd yno.

Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs M Lewis a Mrs Williams, 2 Y Bwthyn. Gwesteion y te oedd Mrs Williams a'i merch Mrs Buddug Jones. Enillydd y wobr lwcus oedd Mrs J Eirlys Williams.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Festri Disgwylfa, brynhawn Mawrth, Hydref 27, gyda Gwasanaeth Diolchgarwch wedi ei drefnu gan yr ysgrifenyddes, Mrs Megan P Morris. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis a chymerodd at y rhannau arweiniol. Y rhai eraill a gymerodd ran oedd Mrs Katie Griffiths, Mrs Alwen Jones, Mrs Beti Wyn Davies, Mrs Jane Jones, Mrs Eirlys Williams, Mrs Jennie Williams, Mrs Eirlys Ll Jones a Mrs Megan P Morris.

Dymunwyd yn dda i Mrs K E Davies oedd wedi cael damwain, ac i'r aelodau oedd yn cwyno. Datganwyd cydymdeimlad â Mrs Nellie Williams, ar farwolaeth ei brawd yn Nhalysarn. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Hughes, Mrs Grace Williams, Miss E Thomas a Mrs Beti Wyn Davies, ac enillwyd y wobr gan Mrs Jane Jones.

Croesawyd Mrs Dilys Thomas, Lle Caradog a Mrs Brown, Ffordd Deiniol i'r cyfarfod.

Cyfarfu yr uchod b'nawn Mawrth, y 29ain o Fedi. Rhoddwyd croeso yn ôl i'r chwiorydd oedd wedi bod yn cwyno ac anfonwyd cofion at Mrs Katie Lewis, oedd yn yr ysbyty yng Nghaernarfon; Mrs Margaret Morris ym Mhlas Pen Gwaith a Mrs Mary Thomas oedd wedi dychwelyd gartre o'r ysbyty.

Cafwyd arddangosiad o waith llaw gan Mrs Laura Williams, Hafod Oleu, un o'n haelodau hynaf. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Nancy Rowlands.

Gwesteion y te oedd Mrs Miriam Lewis, Mrs Sallie Lewis, Mrs Hannah J Thomas, Miss Kathleen Jones a Mrs Megan P Morris. Enillwyd y wobr gan Mrs Mary Hughes.

CYNGOR EGLWYSI: Eglwys Llandinorwig ar ei newydd wedd oedd cyrchfan selogion cyfarfodydd undebol y Cyngor, nos Lun, 9 Tachwedd. Testun y Seiat, dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis oedd "Fy Hoff Emyn". Cafwyd noson deuluol a bendithiol wrth wrando ar hwn ac arall yn adrodd eu hoff emyn, a thraethu am y profiadau a'u harweiniodd i ddewis yr emyn hwnnw.

Manteisiwn ar y cyfle i longyfarch aelodau Llandinorwig am y newid syfrdanol sydd wedi digwydd i'r hen adeilad cysegredig. Cafodd rhai ohonom oedd yn y cyfarfod ein tywys o gwmpas i ryfeddu at y gwelliannau amlwg sydd wedi cymryd lle yn ystod y misoedd diwethaf.

Roedd y cyfarfod hwn yn syrthio drannoeth y ffrwydriad erchyll a ddigwyddodd yn Enniskillen. Gweddiwyd ar i Dduw ddwyn cymod buan rhwng trigolion Ulster, a phenderfynwyd anfon llythyr i gydymdeimlo yn arbennig â'r rhai gollodd anwyliaid, a chyda'r gymodgaeth glos yn gyffredinol yn Enniskillen.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI: Hyderwn y bydd y copi hwn o'r Eco wedi cyrraedd aelwydydd dalgylch yr Eisteddfod mewn pryd i atgoffa pawb bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y 'Steddfod yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch, nos yfory, 27 Tachwedd. Gwelwch yng ngholofnau'r rhifyn hwn bod yr Eisteddfod 1987 wedi bod yn dra llwyddiannus. Priodolir y llwyddiant hwnnw i nifer dda o gefnogwyr nas gwelwyd mohonynt ar y llwyfan o gwbwl, ond sydd, gydol y blynyddoedd, wedi bod yn hybu'r 'Steddfod tu ôl i'r llenni fel petae. Mawr ddiolch i bawb fu'n gweithio. Estynnir croeso brwd i chwi sydd heb ddal ar y cyfle i roi ysgwydd dan y baich hyd yn hyn; cofiwch am y noson, bydd y selogion yno yn eiddgar am eich cymwynas i baratoi am 'Steddfod lwyddiannus arall yn 1988.

EISTEDDFOD YR URDD, 1990: Daeth yn amser torchi llewys o ddifri i geisio cyrraedd y targed o £3,200 a osodwyd i Ddeiniolen a Chlwt-y-bont fel ein cyfraniad at yr Eisteddfod uchod.

Mae'r Pwyllgor Apêl Lleol wedi bod yn ffortunus i gael gwasanaeth Seindorf Ieuenctid Deiniolen i gychwyn yr ymgyrch mewn Cyngerdd Mawreddog, i'w gynnal yn Neuadd y Ganolfan am saith o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 30. Gwnewch ymdrech arbennig i ddod i'r Cyngerdd, cewch noson i'w chofio gan dalentau ifainc y fro. Clywsom feirniad safonol, Mr Alun Guy, Caerdydd, yn Eisteddfod Gwaun Gynfi, yn clodfori'r bandwyr hyn, a'n hannog i ymfalchio yn eu doniau. **Tocynnau oedolion £1.00 a phlant 50c.**

DIOLCH: Dymuna Mrs L M Williams, 8 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am bob caredigrwydd yn ystod, ac ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Hoffai ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Hugh Orwig Parry, Caer, ddiolch o galon i ardalwyr Deiniolen am y cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist o golli mab naw mlwydd ar hugain oed trwy ddamwain. Roedd Hugh yn enedigol o Tan-y-Foel, wedyn o 46 Rhydfadog.

Dymunwn pob bendith i'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Miss Kathleen Jones, Preteg, ddiolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn tra yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Hoffa Kathleen wneud yn hysbys na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

DIOLCH: Dymuna Yvonne Hughes, 40 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a dymuniadau da tra roedd dan feddyginiaeth yn Ysbyty Dewi Sant. Diolch hefyd i staff a meddygon Ward Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mark Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Awst 23ain.

PRIODI: Ar y 7fed o Dachwedd ym Mangor, priodwyd Heather, unig ferch Walter ac Eira Wyn Hughes, 12 Rhes Marian â Keith, mab hynaf Merddyn a Helen Williams, Hen dŷ Ffarm, Gerlan, Bethesda. Y forwyn oedd Nicky Marzelos, cyfnither y briodferch, a'r gwas oedd Peter Jones, ffrind y priodfab. Cafwyd y wledd briodas yn Tilbury's ym Mangor. Bydd Keith a Heather yn cartrefu ym Mryn Teg, Bethesda.

Dymuna Keith a Heather ddiolch a galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

PLAID CYMRU: Clwb 100

**Mis Medi**

£10: Mrs Vera Parry, Brodawel; £8.50: Mrs Ruth Jones, 94 Pentre Helen.

**Mis Hydref**

£10: Mrs Jacqueline Jones, Buarth Berain; £8.50: Mr Gwilym Williams, Crefftau Elidir.

DIOLCH: Dymuna Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl ymweliadau, cardiau a rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn bedwar-ugain oed. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs G Maxwell, Fron Oleu, Gallt-y-Foel, ddiolch i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Sion Roberts, 47 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra yn Ysbyty Gwynedd ac i staff Ward Dulas am bob gofal. Hefyd dymuna ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei brofedigaeth o golli ei annwyl chwaer, Mrs Meira Jones, Bronallt, Pentre Helen.



**CYFARCHION O MALTA**

*Mark Demicoli, ŵyr cyntaf Mr a Mrs Tecwyn ac Ella Williams, a mab bach Joe a Tracey, Malta, gynt o 15 Pentre Helen, Deiniolen, ar achlysur ei ben-blwydd yn flwydd oed.*

DIOLCH: Dymuna Mark Demicoli ddiolch i'w deulu a ffrindiau o Gymru am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn flwydd oed, ac y mae'n edrych ymlaen am weld pawb y flwyddyn nesaf. Diolch i bawb.

# DEINIOLEN (Parhad)

**EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI**
**(Deiniolen a'r Cylch)**

Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus eleni eto yn Neiniolen ar nos Wener a dydd Sadwrn, Hydref 30 a 31.

Y beirniaid oedd: **Cerdd**: Mr Alun Guy, Caerdydd; **Adrodd a Llên**: Mr Gwyn Erfyl, Rhuthun; **Gwau, Gwnio a Choginio**: Mrs Judith Harding, Porthaethwy; **Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffi**: Mr John E Williams, Pentraeth.

Y Llywyddion oedd: Mr Eirug Wyn, Y Groeslon; Mrs Janice Lewis, Bethesda a Mr R Irfon Thomas, Llanrug. Cyfeiliwyd gan Mrs Annette Bryn Parri a Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas.

Arweinyddion yr Eisteddfod oedd Miss Jean Parc Jones, Mrs Nansi EdwinaJones, Mri W J Eames, Gwyn Parri, Ifor Glyn Ifans a'r Parchn Erfyl Blainey a Trefor Lewis.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod;

Dyma'r buddugwyr:

**ADRODD**

**Adrodd (Meithrin)**: 1. Ceri Olwen; 2. Sioned; 3. Elfed. **Adrodd (Dosb 2 a 3)**: 1. Jenny Lynn; 2. Alaw Mari; 3. Shaun Thomas. **Adrodd (Safon 1 a 2)**: 1. Louise; 2. Nia; 3. Martin. **Adrodd (Dan 15)**: 1. Enlli; 2. Beryl; 3. Sion Wyn a Dyfan Sion. **Araith (Dan 19)**: 1. Raymond (Talysarn); 2. Carys. **Adrodd (Dan 19)**: 1. Rhian Medi, Llanfairpwll; 2. Jennifer a Carys.

**Sgets (Agored)**: 1. Parti Euros; 2. Louise a Lyndsey. **Adrodd (Dan 25)**: 1. Helen Wyn Williams, Pantglas, Garndolbenmaen. **Adrodd o'r Ysgrythur (Agored)**: 1. Roland Davies, Nefyn; 2. Meira Turner, Waunfawr; 3. Jennifer E Jones, Deiniolen. **Prif Adroddiad**: 1. Nerys Jones, Caernarfon; 2. Meira Turner, Waunfawr.

**Cwpan i'r gorau dan 12 oed: Lyndsey Vaughan.**

**CERDD**

**Canu (Meithrin a Dosb 1)**: 1. Rhian; 2. Ceri Olwen a Sioned; 3. Elfed, Rhodri, Stephan a Julie. **Canu (Dosb 2 a 3)**: 1. Alaw Mari; 2. Jenni; 3. Mari. **Canu (Safon 1 a 2)**: 1. Lyndsey; 2. Aaron; 3. Elaine, Sian Ellen a Mair. **Canu (Safon 3 a 4)**: 1. Nia Land; 2. Emyr; 3. Anita. **Unawd Cerdd Dant (Dan 12)**: 1. Lyndsey; 2. Nia; 3. Alaw. **Cân Werin (Dan 12)**: 1. Nia Land; 2. Lyndsey; 3. Alaw a Catrin.

**Unawd Piano (Dan 12)**: 1. Dyfan Sion; 2. Nia; 3. Catrin a Sarah. **Parti (Dan 12)**: 1. Parti Anita. **Unawd (Dan 15)**: 1. Beryl; 2. Delyth; 3. Ffion Orwig. **Cân Werin (Dan 19)**: 1. Magwen; 2. Ceri; 3. Ffion Orwig. **Unawd Cerdd Dant (Dan 19)**: 1. Beryl; 2. Ceri; 3. Raymond a Ffion Orwig. **Unawd (Dan 19)**: 1. Magwen, Tregarth; 2. Raymond, Talysarn.

**Unawd Piano (Dan 19)**; 1. Rhian Medi; 2. Enlli; 3. Raymond a Robin. **Deuawd (Dan 19)**: 1. Beryl a Carys; 2. Catrin a Delyth; 3. Gwawr a Nia. **Parti (Dan 19)**: 1. Parti Caryl, Rhiwlas. **Unawd Cerdd Dant (Agored)**: 1. Nerys Wyn Jones, Caernarfon; 2. John Eifion Jones, Garndolbenmaen.

**Unawd Offerynol (Dan 12)**: 1. Gavin; 2. Martin; 3. Eilir. **Unawd (Dan 25)**: 1. John Eifion Jones, Garndolbenmaen; 2. Trefor, Bodffordd. **Deuawd (Dros 19)**: 1. Trefor a Christine, Bodffordd; 2. Wmffra ac Alun, Waunfawr. **Unawd Offerynol (Agored)**: 1. Dylan Wyn, Deiniolen; 2. Iwan, Deiniolen; 3. Ieuan a Dylan, Deiniolen. **Cân Werin (Agored)**: 1. Nerys Wyn Jones, Caernarfon; 2. Alun Mabon, Waunfawr; 3. Dylan Rowland, Nefyn.

**Canu Emyn Dôn (Agored)**: 1. Eirlys Thomas, Dolgellau; 2. Gwen Owen, Pwllheli; 3. Wmffra, Betws Garmon. **Unawd Gymraeg (Agored)**: 1. John Eifion Jones, Garndolbenmaen; 2. Emyr, Llangefni, Ynys Môn; 3. Trefor Williams, Bodffordd; 4. Alun Williams. **Her Unawd (Agored)**: 1. John Eifion Jones, Garndolbenmaen; 2. Emyr W Jones, Llangefni; 3. Christine ac Alun Mabon. **Côr neu Barti**; 1. Parti Sioned a Hayley, Deiniolen.

**Cwpan i'r gorau yn adran Cerdd dan 12 oed: Nia Land.**

**ADRAN LENYDDOL**

**Meithrin a Dosb 1**: 1. Ceri Olwen; 2 Wayne; 3. Emma. **Dosb 2 a 3**: 1. Rhian Longley; 2. Jennifer; 3. Michael Jones. **Safon 1 a 2**: 1. Bethan; 2. Sian Ellen; 3. Lyndsey. **Safon 3 a 4**: 1. Hayley; 2. Nia; 3. Donna. **Barddoniaeth (Dan 12)**: 1. Lndsey; 2. Martin Llewelyn; 3. Wil Cwac Cwac. **Rhyddiaith (Dan 15)**: 1. Sion Wyn Hughes; 2. Barry John Thomos; 3. Sian Griffith.

**Medal Lenyddol dan 25 oed**: Mr Arfon Jones, Rhosybol, Ynys Môn. **Stori Fer**: Sian Wyn Jones, Penrhosgarnedd, Bangor. **Hanes Lleol**: Dilys Hughes, Deiniolen. **Asio Emyn**: Dilys Hughes, Deiniolen. **Dywediadau Lleol**: Margaret C. Griffith, Deiniolen. **Parodi**: Parchedig Byron Hywel, Bangor. **Telyneg**: William Henry Jones Llandudno. **Englyn**: Parchedig Henry James, Caergybi. **Limrig'**; Hugh Williams, Sir Fôn a Mary W Jones yn gyfartal gyntaf. **Llinell Goll**: Mary W Jones a Mr John Jones Ceris yn gyfartal gyntaf.

**Cwpan i'r gorau yn yr Adran Lenyddol dan 12: Hayley Williams.**

**ADRAN CELF A CHREFFT**

**ARLUNIO**

**Ysgol Feithrin**: 1. Rhian Jones; 2. Anna Edwards; 3. Urien Sion Hughes. **Meithrin a Dosb 1**: 1. Emma Jones; 2. Elfed Morris; 3. Wayne Owen. **Dosb 2 a 3**: 1. Stacy North; 2. Sarah Bingham; 3. Rhiannon Skillikorn. **Safon 1 a 2**: 1. Michael Thomas; 2. Bethan Griffiths; 3. Daren Roberts. **Safon 3 a 4**: 1. Daniel Wood; 2. Joe Jephson; 3. Aaron Thomas. **Bl 1 a 2, Uwchradd**: 1. Darryl Williams; 2. Gethin Williams; 3. Gwynant Maxwell. **Bl 5 a 6**: 1. Sarah Davies; 2. Dylan Cole; 3. Ieuan Griffiths. **Dros 19**: 1. Dafydd Wyn Jones.

**GWAITH LLAW**

**Ysgol Feithrin**: 1. Mathew Phillip Jones; 2. Jonathan Roberts; 3. Rhian Jones. **Meithrin a Dosb 1**: 1. Mathew Phillip Jones; 2. Jonathan Roberts; 3. Rhian Jones. **Dosb 2 a 3**: 1. Shaun M Jones; 2. Gethin Williams; 3.Alaw Mari Hughes; 4. Shaun C Thomas. **Safon 1 a 2**: 1. Bethan Williams; 2. Sian Ellen Thomas; 3. Elaine Williams; 4. Richard Williams. **Safon 3 a 4**: 1. Euros Williams; 2. Tanya Thomas; 3. Martin Williams. Bl 1 a 2: 1. Eilir Williams; 2. Sian Griffith; 3. Gwawr Williams. **Bl 3 a 4**: 1. Iwan Williams. **Bl 5 a 6**: 1. Dylan Cole.

**GWAU**

**Ysgol Gwaun Gynfi**: 1. Elaine Williams ac Ellena Williams; 2. Bethan Williams; 3. Lindsey Parry a Sian Ellen Thomas. **Dan 15**: 1. Sioned Evans; 2. Linda Jones; 3. Gwawr Williams. **Dros 15**: 1. Mrs Nest Efans; 2. Mrs Anwen Thomas; 3. Mrs Mari Griffith a Mrs Ellen Williams.

**Cwpan Gwau a Gwnio (Bryn Du): Mrs E Griffiths.**

**GWNIO**

**Ysgol Gwaun Gynfi**: 1. Nia Land; 2. Lindsey Parry; 3. Sian Ellen Thomas ac Elaine Williams. **Dan 15**: 1. Gwawr Williams. **Dros 15**: 1. Mrs E Griffiths; 2. Mrs B M Jones; 3. Mrs M Lewis. **Brodwaith**: 1. Miss Jean Moeller; 2. Mrs Betty Williams; 3. Anti Kate. **Crosio**: 1. Anti Sally; 2. Cynthia Williams; 3. Mrs E Griffiths. **Tegan Meddal**: 1. Mrs E Griffiths; 2. Mrs Menna Wyn Jones; 3. Lindsey V Parry.

**COGINIO**

**Dan 8**: 1. Richard Williams; 2. Alaw Mari Hughes; 3. Sian Wyn Evans. **Dan 12**: 1. Elena Williams; 2. Sian Griffith; 3. Sian Ellen Thomas. **Dan 15**: 1. Gwawr Williams. **Dan 19**: 1. Nicola V Parry. **Dros 19: Cacen Madeira**: 1. Mrs Ellan Williams; 2. Mrs Owen Griffith; 3. Anti Sally. **Chutney**: 1. Anti Sally; 2. Mrs Dilys Hughes; 3. Mrs Miriam Lewis. **Dynion yn unig: Torth**: 1. Parchedig Trefor Lewis; 2. Mr Hefin Goronwy Jones.

**GWAITH COED**

**Dan 19**: 1. Dylan Williams; 2. Gwawr Williams; 3. Dylan Cole. **Dros 19**: 1. Mr Glyn Jones; 2. Miss Jean Moeller.

**GWAITH METEL**

**Dan 19**: 1. Iwan Williams.

**FFOTOGRAFFI**

**Dan 12**: 1. Eilir Williams; 2. Eilir Williams; 3. Hugh Thomas. **Dan 19**: 1. Jennifer Jones; 2. Iwan Williams; 3. Gwawr Wiliams. **Dros 19**: 1. Ernest Jones; 2. Miss Jean Moeller; 3. Alwyn Williams.

**TREFNIANT BLODAU**

**Dan 19**: 1. Sian Griffith; 2. Gwawr Williams; 3. Sian Ellen Thomas. **Dros 19**: 1. Mrs Mari Griffith; 2. Miss Jean Moeller.

**CWPAN am y gwaith gorau yn yr adran Gwaith Metel, Llechen a Gwaith Coed: Mr Glyn Jones, Deiniolen.**

CYMWYNASWYR Y FRO: Rhai wythnosau cyn y Cadoediad, sylwodd rhai o fechgyn y pentref ar y Gofgolofn sydd yn sefyll o flaen y llyfrgell, ei bod mewn cyflwr difrifol a phenderfynwyd mynd ati ar unwaith i beintio a thacluso o'i chwmpas.

Gwnaethpwyd hyn i gyd yn wirfoddol gan Mr Alun Wyn Evans, Pentre Helen; Mr R O Williams, Arfon House; Mr J Roberts, Hafod Oleu a Mr Owie Parry, Hafod Oleu. Diolch i Mr Hughie Gordon Thomas am roi y paent yn rhad ac am ddim. Da o beth fod rhai yn cofio am y bechgyn yn y pentref a gollasant eu bywyd yn y ddau Ryfel Byd.

Diolch yn fawr i'r hogia.

SEINDORF: Ar ddiwrnod y Cadoediad, chwaraewyd Emyn o flaen y Gofgolofn gan y Seindorf, a'r *Last Post* a *Rifali* gan Mr Ieuan Morris, Tai Cyfni.

DIOLCH: Dymuna Menna, Ellen, Sian a theulu y diweddar Mrs Meira Jones, Bronallt, 1 Pentre Helen, ddatgan eu diolchgarwch diffuant i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl.

MARW: Dydd Iau, Tachwedd 5ed bu farw Mrs Meira Jones, Bronallt, 1 Pentre Helen yn 65 mlwydd oed.

Fe'i ganwyd a'i magwyd yn Neiniolen, ac roedd yn fawr ei pharch gan bawb a'i hadwaenai, oherwydd y gofal a roddodd i'w thad a'i mam a'r teulu drwy gydol ei hoes. Dangoswyd y parch hwnnw yn y nifer a ddaeth i'w hangladd, ddydd Llun, Tachwedd 9fed.

**Nos Fercher**
**16, Rhagfyr 1987**
**am 8.00 p.m.**

Canolfan Ysgol Gynradd Cwm-y-glo

Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa

**"NADOLIG DDOE"**

**Yng ngofal Mair Read a John Owen Huws**

*Dewch yn heidiau!*

## TREFNU TAITH GERDDED



DIOLCH: Dymuna Jackie a Nellie Parry, 42 Pentre Helen ddiolch i'w ffrindiau oll yn Ffatri Wardle Storeys,Llandegai am drefnu taith gerdded i Idris, eu mab, yn ddiweddar. Mae Idris yn dioddef o Cystic Fibrosis. Gweler y llun uchod.

DIOLCH: Dymuna Maud, 1 Stryd y Dŵr, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd diolch i feddygon a gweinyddesau Ward Ogwen.

Dymuna Mrs P R Jones, 10 Ffordd Deiniol, Deiniolen, ddiolch i bawb am y cardiau a'r arnrhegion a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn ddiweddar. Diolch i'r Parch. T. Lewis ac aelodau eglwys Cefn-y-Waun am eu rhodd hardd o'r Testament Newydd. Hefyd i Mr a Mrs E Jones, y Becws. Diolch yn fawr iawn.

SEINDORF IEUENCTID: Ddechrau fis Medi, bu aelodau o'r Seindorf ar daith gerdded o amgylch yr ardal. Bydd yr arian a gasglwyd, sef £867 yn cael ei ddefnyddio tuag at brynu offerynnau newydd.

Dymunwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y swm.

Nos Iau, Hydref 29, yng Nghanolfan Dinorwig, bu'r Seindorf yn diddori aelodau o'r Gymdeithas Lenyddol. Dyma'r tro cyntaf iddynt gadw cyngerdd eu hunain, a chafwyd noson ardderchog.

Daeth llwyddiant unwaith yn rhagor i'r aelodau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

**Unawd Offerynnol dan 18 oed**: 1. Iwan Williams; 3. Dylan Wyn Williams.

**Unawd Offerynnol dan 12**: 1. Gavin Saynor; 2. Sion Wyn Hughes; 3. Martin Ll Williams; 4 Eilir Williams ac Euros Williams.

**Grŵp Offerynnol**: 1. Pedwarawd Deiniolen.

**Sgets**: 2. Parti Euros.

Llongyfarchiadau i'r hogia ar ddod yn bedwerdydd yn adran Gogledd Cymru yng Nghei Cona ddiwedd Tachwedd.

**SEDD WAG AR GYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN**

**Mae angen un i gynrychioli ward Clwt-y-bont ar y Cyngor uchod. Os oes rhywun un â diddordeb, cysyllter â'r clerc drwy lythyr:**

**Selwyn Griffith,**
**Clerc y Cyngor,**
**Crud-yr-Awen,**
**Penisarwaun.**

# O 'STEDDFOD GWAUN GYNFI















# ...O BORTHMADOG ...
# ... I LANRWST

**Bellach mae Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol wedi symud o Borthmadog i Lanrwst, cartref y Brifwyl ym 1989. Cafwyd cartref i'r swyddfa ar sgwâr y dref, ynghyd â siop i werthu nwyddau a'r tocynnau. Eisoes sefydlwyd yr is-bwyllgorau testunau ac maent wrthi'n ddiwyd ar hyn o bryd yn dewis darnau ar gyfer y gwahanol gystadlaethau. Mae'r Pwyllgr Gwaith hefyd wedi dechrau ar ei waith dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd O.M. Roberts, Llanbedr-y-cennin.**

Yn frodor o Lanrug, Arfon, cafodd ei addysg yn yr Ysgol Gynradd leol, ysgolion uwchradd Brynrefail a Syr Hugh Owen, Caernarfon cyn mynd i Goleg Prifysgol Bangor. Yno graddiodd fel baglor mewn gwyddoniaeth, a dilynodd gwrs hyfforddiant fel athro. Bu'n dysgu am gyfnod yn Llundain cyn dychwelyd i'w hen sir i ddysgu ym Methesda. Bu hefyd yn dysgu yn Llandudno cyn cael ei benodi yn brifathro Ysgol Maelgwn, Cyffordd Llandudno, swydd y bu ynddi am gyfnod o un mlynedd ar hugain.

Bu'n aelod o Gyngor Bwrseisdref Conwy o 1952 hyd 1968, ac ef oedd y maer a chwnstabl castell Conwy ym 1958-59. Etholwyd ef yn aelod o Gyngor Sir Caernarfon ym 1967, ac eleni dathlodd ugain mlynedd o aelodaeth o'r Cyngor Sir (Caernarfon a Gwynedd.)

Ef oedd Cadeirydd Pwyllgor Addysg Gwynedd rhwng 1976 a 1978, bu'n Gadeirydd y Cyngor Sir o 1985 i 1986. Mae'n aelod o'r Cyd-Bwyllgor Addysg ers 1970, a bu'n gadeirydd y Pwyllgor Iaith a Diwylliant am wyth mlynedd. Ar hyn o bryd ef yw cadeirydd y panel dysgu Cymraeg i oedolion. Y mae hefyd yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, Cyngor Coleg Prifysgol Bangor ac ar Gorff Llywodraethol y Coleg Normal.

Nid dyma'r tro cytaf iddo chwaith ddod i gysylltiad â'r Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n ysgrifennydd pwyllgor drama Eisteddfod Bae Colwyn ym 1947, ac ef oedd cadeirydd yr un pwyllgor ym Mhrifwyl Llandudno ym 1963. Eleni derbyniodd O.M. Roberts radd M.A. athro yn y celfyddydau, i gydnabod ei gyfraniad sylweddol i fywyd cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig mewn llywodraeth leol.

Myrddin ap Dafydd yw ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith. Yn frodor o Lanrwst, cafodd ei addysg yn yr ysgol gynradd leol ac yn Ysgol Dyffryn Conwy, cyn mynd i Goleg Prfysgol Aberystwyth lle graddiodd yn y Gymraeg. Bu'n gwneud gwaith ymchwil ar hanes y theatr yng Nghymru, ond bellach ef yw perchennog Gwasg Carreg Gwalch. Mae'n fardd ac yn ddramodydd, ac enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Rhyl ym 1974.

Cyfeiriad newydd y Swyddfa yw: SWYDDFA'R EISTEDDFOD, Y SGWÂR, LLANRWST, GWYNEDD, LL26 0LB (FFÔN 0492 640281).

## CANNWYLL Y CYMRO

*Bydd "Cannwyll y Cymro" yn teithio o fan i fan drwy'r wlad y flwyddyn nesaf i ddod â goleuni'r Beibl i'r bobl. Noddir y Gannwyll a'i thaith gan bapur wythnosol "Y Cymro" a'r bwriad yw iddi deithio'r wlad fel rhan o ddathliadau Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a chyflwyno'r cyfieithiad newydd o'r Beibl cyflawn. Disgwylir i'r Gannwyll ymweld â'r rhannau hynny o Gymru lle y cynhelir dathliadau arbennig.*

*Rhwng hyn a dechrau 1988 ceisiwn lunio dyddiadur y daith, a gwahoddwn drefnwyr Dathliadau Cyfieithu'r Beibl ym mhobman i gysylltu â ni heb oedi os dymunant fod yn rhan o'r cynllun. Gallant wneud hynny hyd yn oed os nad yw eu cynlluniau'n gwbl bendant ar hyn o bryd.*

*Hon fydd y gannwyll addurniedig fwyaf erioed a welwyd yng Nghymru a dymunwn iddi fod ar daith gydol 1988 hyd y mae hynny'n bosib. Felly, cysylltwch â ni cyn diwedd y flwyddyn, i sicrhau y daw'r goleuni i'ch digwyddiad arbennig chi.*

*Dylid cyfeirio pob cais at Y Gweinyddwr, 54 Maes Hendre, Waunfawr, Aberystwyth. (Ffôn: 0970 617320).*

*Yn gywir,*
*J. Cyril Hughes*
*Gweinyddwr*

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

ADRAN YR URDD: Mwynhaodd y plant Noson Galangaeaf trwy wneud masgiau yn y Neuadd. Yr enillwyr oedd Non, Bethan, Nia a Donna yn yr adran hynaf, a Carwyn, Dylan, Llinos Mair ac Irfon Jones yn yr adran iau. Trefnwyd gemau, a'r beirniaid oedd Mrs Valmai Owen a Haf.

Bu'r noson Tân Gwyllt eto eleni yn llwyddiant mawr, a chafwyd cefnogaeth brwd gan y pentrefwyr. Diolch yn fawr i'r merched fu'n paratoi lluniaeth ac i'r dynion fu'n helpu i sicrhau diogelwch. Yn dilyn y noson yma, byddwn yn cyfwlyno £95 i'r Pwyllgor Apêl Nantlle ac Arfon yn lleol. Diolch hefyd i arweinydd y Clwb Ieuenctid am ei gyd-weithrediad.

Nos Iau diwethaf treuliodd yr Adran noson dan ofal Mr Richard Llwyd Jones mewn gemau a chwis.

19 Tachwedd – Noson dan ofal Mr Duncan Brown, Waunfawr; 26 Tachwedd – Noson dan ofal Mr L Larsen, Penisarwaun; 3ydd Rhagfyr – Ymweliad â Theatr Gwynedd i weld Jiw Jiw Jeifin Jenkins. Bydd y bws yn gadael yr ysgol am 6.45.

Mae'r gangen wedi derbyn cais gan Ferched y Wawr i gymeryd rhan yn y Gwasanaeth Naw Llith a Charol ar Nos Sul, Rhagfyr 20ed, ac mae'r ymarferion eisoes wedi dechrau.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Tachwedd 11eg, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs M. G. Williams, Gwylfa yn sôn am hen feddygyniaethau. Gallai llawer ohonom gofio rhai o'r meddygyniaethau ac eraill yn rhyfeddu ar fedrusrwydd a ffydd y bobl ers talwm.

Dymunodd y llywydd Mrs Lynwen Morris yn dda i Miss Katie Morris ar ei phenblwydd yn 80 oed. Hefyd i Mrs Alys Jones ar ennill y gadair yn yr Eisteddfod yn ddiweddar.

Pawb sy'n mynd i'r cinio y mis nesaf i roi'i enw i Mrs Gwyneth Williams, Mrs Eryl Roberts neu Mrs Lynwen Morris mor fuan ag sy'n bosibl.

Y SGANIWR: Nos Wener 13eg mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd trosgwlyddwyd siec o £1950 i Apêl y Sganiwr. Bydd yr arian yn cael ei ychwanegu at y £911 oedd eisoes yn y gronfa fel rhoddion er cof gan drigolion yr ardal. Llywydd y pwyllgor Apêl Mr Geraint Elis drosglwyddodd y Siec i Miss Mary Richards, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Arfon. Diolchwyd i'r holl bentrefwyr am eu parodrwydd yn cefnogi'r apêl ac yn enwedig i Mrs Menna Davies yr ysgrifennydd a Mr Goronwy Jones y Trysorydd. Er bod y Siec wedi ei throsglwyddo a'r nôd o £2,700 wedi ei gyrraedd, bydd y gronfa'n dal yn agored os bydd unrhyw un yn teimlo fel cyfrannu.

PARTÏON NADOLIG YR YSGOLION SUL: Eleni eto bydd plant hŷn ysgolion Sul y Cysegr a Bethel yn dod at ei gilydd nos Fercher Rhagfyr 16 ym Mhlas Menai i'r Parti Nadolig.

CAPEL Y CYSEGR: Nos Fawrth, Rhagfyr 1af cynhelir noson goffi yn festri'r Capel wedi ei threfnu gan wragedd y Blaenoriaid. Bydd yr elw yn mynd at Apêl y Sahel.

Cynhaliwyd noson o Ddisgo nos Wener 20fed o Dachwedd gyda athrawon yr Ysgol Sul yn trefnu a Mr Iorwerth Williams, Tan y Buarth yn troelli'r recordiau.

EISTEDDFOD: Roedd Eisteddfod flynyddol Bethel dydd Sadwrn Tachwedd 7ed yn llwyddiant mawr. Mrs Alys Jones, Eryri, enillodd y Gadair am ysgrif ar y testun Crwydro ac aeth Cadair y Bobl Ifanc i Meinir Dauncy Williams, Elan, Tan-y-Cae, am ysgrif ar Obeithion. Canmolwyd y ddwy yn fawr gan y beirniad Mr William Lloyd Davies, Bangor.

Cyflwynwyd cwpan newydd gan deulu'r diweddar Mrs Joan Foulkes, Tyddyn Gwndwn i'r perfformiad cerddorol gorau dan 28 oed a phenderfynodd y beirniad, Mrs Betty Williams, Pontllyfni mai i Angharad Price, 5 Tan-y-Ffordd y dylai fynd am ei datganiad ar y piano.

Cyflwynwyd placiau i'r canlynol: Perfformiad cerddorol gorau dan 12, Bethan Williams, 16 Tan-y-buarth; Adrodd dan 12, Llinos Angharad Morris, Llys Myfyr; Crefft dan 18, Non Ll. Jones, 18 Eryri; Coginio dan 18, Gail Warrington, Wern Bach; Crefft agored, Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd; Coginio agored, Mrs Lynwen Morris, LLys Myfyr; Llenyddiaeth Ysgol Bethel, Sioned E. Hughes; Arlunio Ysgol Bethel, Lee Williams.

## ENILLWYR YR EISTEDDFOD





Y beirniaid eraill oedd; Crefft a Choginio, Miss Carol Price, Llys Gwynt; Celf, Mr A Ginoberg, Celtic House; ffotograffiaeth, Mr Alwyn Williams, Saron.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Glenys Griffith, Mrs Rita Williams a Mrs Betty Owen.

Mrs Ann Hopcyn Evans, Caernarfon oedd y llywydd a'r arweinyddion oedd Llinos Wyn, Geraint Elis, Ieuan Williams a'r Parch W.R. Williams.

Diolch yn fawr i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith caled yn trefnu Eisteddfod mor lwyddiannus.

Yr enillwyr oedd:

**Adrodd**, 4-6 oed: 1, Robin Owen; 2, Elen Robinson a Geraint Owen, cyd. Dan 4: 1, Owain Sion; 2, Aled Roberts, Gwenan Jones a Bethan Mair. 6-8: 1, Eleri Robinson; 2, Bethan Williams.

Parti adrodd dan 8: 1, Parti Caryl; 2, Parti Elen. 8-10: 1, Llinos Wyn Morris; 2, Carwyn John Morris. 10-12 oed: 1, Llinos Angharad Morris.

Parti dan 12: 1, Brain Bethel; 2, Rapsgaliwns. Dan 15: Sioned Meleri Owen. Parti Adrodd, dan 15: 1, Parti Lynn; 2, Parti Ruth. Dan 18: Sioned Meleri Owen.

Parti adroddiad: 1, Beti Owen a Lynnwen Morris; 2, Anne Humphreys a Llinos Wyn. Cydadrodd: 1, Parti Ceinwen; 2, Parti Mair Read. Darn heb ei atalnodi: 1, Llinos Wyn; 2, Beti Owen. Sgets: Clwb Ieuenctid.

**Canu** — 4-6: 1, Robin Owen; 2, Euron Rees. Dan 4: 1, Gwenan Jones; 2, Owain Sion. 6-8: Bethan Williams; 2,. Bethan Vaughan.

Parti canu dan 8: 1, Hogia Ni; 2, Genod Ni. 8-10: 1, Llinos W Morris; 2, Carwyn John Morris. 8-12: 1, Non Ll Jones; 2, Llinos Angharad Morris.

Unawd piano dan 12: 1, Non Ll Jones; 2, Menna D Williams.

Parti canu, dan 12: 1, Urdd Bethel. Dan 15: 1, Sioned Owen; 2, Ruth Parry. Parti dan 15: 1, Yr Adar. Deuawd dan 15: 1, Menna D Williams a Llinos A Morris.

Unrhyw offeryn: 1, Non Ll Jones; 2, Llinos A Morris. Dan 18: 1, Sioned M Owen; 2, Meinir D Williams. Unawd piano dan 18: 1, Angharad Price.

Emyn dros 40, Meibion: Thomas A Jones. Merched: Mrs Rita Williams. Unawd agored: 1, Sioned Owen; 2, Sian Hughes a Meinir D Williams (cyd). Deuawd agored: 1, Rita a Glenys; 2, Angharad a Meinir.

Unawd Alaw Werin: 1, Meinir D Williams; 2, Ellen Ellis a Rita Williams (cyd.). Parti Alaw Werin: 1, Parti Rita; 2, Perti Glenys. Wythawd: Wythawd Glenys.

**Llenyddiaeth** — Plant Ysgol Bethel, Babanod Canol: 1, David Peters; 2, Cheryl A Morris. Babanod Uchaf: 1, Laura Millican; 2, Rebecca Hall. Dosbarth 1: 1, Gareth Birkett; 2, Eleri Robinson.

Dosbarth 2: 1, Carwyn John Morris; 2, Eurig Druce. Dosbarth 3: 1, Sioned Eleri Hughes; 2, Llinos W Morris. dosbarth 4: 1, Iolo Price; 2, Llinos Angharad Morris.

Ysgol Uwchradd: Blwyddyn 1 a 2: 1, Menna D Williams; 2, Sioned M Owen a Non Ll Jones. Cerdd: 1, Non Ll Jones; 2, Sioned M Owen. Blwyddyn 3-4: 1, Lynn Roberts; 2, Wenna Ll Jones.

Cerdd: 1, Lynne Roberts.

Brawddeg: 1, Menna D Williams; 2, Sioned M Owen. Ysgrif Gobeithion: 1, Meinir D Williams.

Agored — Ysgrif neu Stori Fer: 1, Alys Jones; 2, Ellen Ellis.

Cyfarwyddiad ar gyfer ymwelydd: 1 a 2, Mrs M G Williams.

Dyddiadur: 1, Mrs M G Williams; 2, Carys Owen.

Cerdd: 1, Mrs M G Williams; 2, Dafydd Williams.

Parodi: 1, Richard Ll Jones; 2, Alys Jones.

Emyn: 1, Mrs M G Williams.

Brawddeg: 1, Mair Price; 2, Richard Ll Jones.

Llinell goll: 1, Collwyn Williams; 2, Elwyn Jones.

Dros 60 oed: 1, Mrs M G Williams.

**Arlunio** — Ysgol Feithrin, grŵp 1: 1, Gwenno Thomas; 2, Sarah L Williams. Grŵp 2: 1, Mark Looney; 2, Aled Roberts.

Ysgol Bethel, Dosbarth Meithrin: 1, Nia Thomas; 2, Mark C Williams.

Babanod canol: 1, Erin A Clarkson; 2, Julie Burnarnd.


Babanod uchaf: 1, Emma Burnarnd; 2, Andrew O Williams.

Dosbarth 1: 1, Gareth Birkett; 2, Eleri Robinson.


## APÊL Y SGANIWR




**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**



**Ffôn:**
**Y FELINHELI 670556**

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

# BETHEL
## parhad

Dosbarth 2: 1, Christpher V Jones; 2, Nia Salisbury.

Dosbarth 3: 1, Neil While; 2, Kerry Evans.

Dosbarth 4: 1, Lee Williams; 2, Richard Roberts.

Dan 18: 1, Haf Owen; 2, Gwen F Jones.

Agored: Mrs Alys Jones.

**Ffotograffiaeth** — Ysgol gynradd: 1, Dafydd Tomos Jones; 2, Carwyn John Morris.

Ysgol uwchradd: 1 a 2, Ruth W Parry.

Agored: 1 a 2, Mrs Glenys Griffith.

**Coginio** — Dan 12 oed, gwellt caws: 1, Sioned Eleri Hughes; 2, Llinos Angharad Morris. Dan 15, salad: 1, Gail Warrington; 2, Sioned Meleri Owen. Dan 18, pedair eitem safori: 1, Angharad Elis.

Agored, potel o win: 1, Mrs Eirlys Williams; 2, Mrs Anne Hughes. Treiffl: 1, Mrs Lynwen Morris; 2, Wena Williams. Cacen wedi ei haddurno: 1, Lynwen Morris. Pedair cacen wedi ei gwneud o Choux pastry: 1, Mrs Warrington; 2, Mrs Ann Hughes.

Torth wen: 1, Mrs Nora Parry; 2, Mrs A E Williams. Torth frown: 1, Mrs Anne Hughes; 2, Mrs A E Williams.

Cacen Dundee: 1, Mrs Glenys Griffith; 2, Mrs Mary W Jones. Safori gyda pwff pastri: 1, Mrs Anne Hughes; 2, Mrs Glenys Griffith.

Pryd ar gyfer llys-fwytawr: 1, Mrs Ann Hughes; 2, Mrs Gwyneth Williams. Marmalade: 1, Mrs A E Williams; 2, Mrs Lynwen Morris.

Paté: 1, Mrs Eirlys Williams; 2, Mrs Lynwen Morris. Cymysgedd o felysion: 1, Mrs Lynwen Morris. Pavlova: 1, Mrs Lynwen Morris; 2, Mrs Anne Hughes. Teisen blât: 1, Mrs Warrington; 2, Mrs Edwina Morris.

**Arlunio** — Agored: 1 a 2, Mrs Alys Jones. Plu pysgota, agored: 1, Mr Hugh Hughes. Unrhyw beth allan o fetel: 1, Euros N Jones; 2, Tomos Alun Jones. Unrhyw beth o goed: 1, Ruth Parry a Bethan Jones (cydradd).

**Gwaith llaw** — Dan 8, mat bwrdd: 1, Delyth Michael; 2, Annest Williams. Addurn o gregin, dan 10: 1, Llinos Wyn Morris. Dan 12, gorchudd clustog: 1, Non Llywelyn Jones; 2, Llinos Angharad Morris. Dan 15, collage cerdyn Nadolig: 1, Non Llywelyn Jones; 2, Sioned Meleri Owen.

**Agored**: Collage gaeaf: 1 a 2, Mrs Nan Owen. Tank top neu wasgod: 1 a 2, Mrs Nan Owen. Unrhyw fath o rug: 1, Mrs Eluned Davies.

Jumper neu V-neck pullover: 1 a 2, Mrs Eluned Davies. Trefniant o flodau: 1, Mrs Edwina Morris; 2, Mrs Gwyneth Williams a Mrs Nan Owen (cyd). Dilledyn i blentyn wedi ei weu: 1, Mrs Gwyneth Williams; 2, Mrs Anne Hughes. Siwt wedi ei gweu: 1, Mrs Gwyneth Williams.

Cyfarchion Mr Dafydd Williams, Hafod i fardd y Gadair:

**Daethost, Sipsi, o'th deithio – i rannu**
**Sawl cyfrinach heno,**
**A rhoi, o'th fasged, i'r fro**
**Fwyniant dy garafanio.**

**Rhoddaist hanes haf o deithio**
**Mewn ysgrifen inni'n gryno;**
**Wedi'r hir grwydro, fe haeddi di**
**Gysurdeb, – yn ein Cadair ni!**

**I'r Bardd Ifanc**

**Edrychaist yn broffwydol**
**I niwloedd y dyfodol,**
**A rhoist i ni**
**Â welet ti**
**Mewn ysgrifen dra ysgytiol.**

**Y mae'n bro eto'n llawn hwyl – eleni**
**Cyflawnaist dy orchwyl;**
**Hawlia'r llwyfan ferch annwyl,**
**D'Obeithion sy'n goron gŵyl.**



# YR ANGEN AM GYMORTH YCHWANEGOL I FFERMWYR MYNYDD

Wrth annerch yng nghinio blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru Brycheiniog a Maesyfed yn ddiweddar, cyhuddodd Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, H.R.M. Hughes, swyddogion a gwleidyddion y Comisiwn Ewropeaidd o ddiffyg didwylledd yn eu hymwneud â phroblemau ffermwyr mynydd.

Dywedodd y dylai ffermwyr mynydd drwy'r Gymuned gael amodau teg i'w galluogi i ddal eu pennau uwchben y dŵr. A rhybuddiodd y byddai sgil-effeithiau difrifol ar amaethyddiaeth yng Nghymru petai cymorth i'r diwydiant defaid a'r sector anifeiliaid yn gyffredinol yn cael ei grebachu.

Nododd fod gwleidyddion a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd yn ymwybodol iawn o'r problemau yn yr ardaloedd amaethu mynyddig, ac o'r pryder cynyddol ynglŷn â diboblogi'r cyfryw ardaloedd. Yn wir, mewn cyfarfod diweddar o Senedd Ewrop cefnogwyd a mabwysiadwyd cynnig yn galw am bolisiau penodol i ddelio â phroblemau yr ardaloedd mynyddig.

Ond ymddengys fod y Senedd yn gwbl ddi-bŵer i ddylanwadu ar bolisiau'r Comisiwn yn ei ymwneud ag ardaloedd mynyddig.

Dywedodd Mr Hughes fod y problemau sy'n bla ar ardaloedd mynyddig Ewrop yn amlycach mewn ardaloedd fel Cymru. Roedd 20 y cant o holl ffermydd y Gymuned Ewropeaidd wedi eu lleoli yn yr Ardaloedd Llai Ffafriol – o'u cymharu ag 80 y cant yng Nghymru.

Ar waetha'r collfarnu diweddar a fu ar y premiwm cyfnewidiol ar ddefaid, dywedodd Mr Hughes fod ei barhad yn holl-bwysig i'r diwydiant defaid yng Nghymru. Profodd y cynllun ei werth o'r dechrau – roedd cost cynnal y cynllun yn grintachlyd o'i gymharu â chost adrannau eraill o'r byd amaeth, roedd yn cynnal hyder y cynhyrchydd, ac yn bwysicach fyth, roedd o fudd i'r cwsmer hefyd gan gadw pris cig dafad ac oen yn rhesymol i wraig y tŷ.

"Gweithiodd y gyfundrefn defaid ac ŵyn yn fwy effeithiol na mwyafrif polisiau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r cynhyrchydd a'r cwsmer, ac rwy'n credu y dylem barhau i ymladd am ei barhad yn ei ffurf bresennol."

Awgrymodd Mr Hughes y byddai'r diddymu graddol ar y premiwm cyfnewidiol yn arwain at brisiau is ar ŵyn stôr, a symudiad yn nhrefn eu marchnata o'r haf a'r hydref cynnar. Canlyniad cyflwyno un premiwm defaid – yn ôl amcangyfrif y Comisiwn ei hun – fyddai symudiad o £163 miliwn yn unig erbyn diwedd 1991 – un pitw iawn yn ôl safonau gwariant y Comisiwn Ewropeaidd.

Ail-adroddodd Mr Hughes y cais a wnaethpwyd eisoes gan yr Undeb am leihad sylweddol ar fewnforion o Seland Newydd cyn y diddymu graddol ar gig oen o'r wlad honno. Bwriad Seland Newydd oedd cludo tua 100,000 tunnell o gig oen i Brydain Fawr yn ystod 1988 – cynnydd o 12 a hanner y cant ar y flwyddyn bresennol.

"Mae'r llywodraeth yn gyfangwbl ystyfnig yn gwrthod â chefnogi unrhyw leihad ar fewnforion o Seland Newydd – symudiad a ystyriwn i yn gwbl angenrheidiol os am sicrhau newidiadau yn y gyfundrefn cig dafad ac oen."

Cyflwynodd yr Undeb ddadl gref dros gymorth ychwanegol i ffermydd mynydd yn ystod cyfarfodydd diweddar yn ymwneud â Lwfans Iawndal ar Anifeiliaid sy'n Pori ar y Mynydd (H.L.C.A.), meddai Mr Hughes. Roedd yr Undeb wedi pwysleisio'r angen am gynnydd i'r eithaf yn nhaliadau H.L.C.A. ar wartheg mynydd, gyda chynnydd sylweddol yn y cymorthdal ar ddefaid mynydd. Dylid nodi fod cyfanswm y grantiau i ffermydd yng Nghymru wedi gostwng o £32.7 miliwn yn 1984 i £18.6 miliwn llynedd. Yr un oedd y patrwm yn yr ardaloedd mynyddig, felly, meddai Mr Hughes, mae hynny'n cyfiawnhau defnyddio'r cynilion hyn i gryfhau rhai adrannau eraill.

Roedd y Comisiwn Cig a Da Byw wedi rhagweld y byddai'r cyflenwad o gig eidion ym Mhrydain Fawr yn gostwng o bump y cant i ychydig dros filiwn o dunelli yn 1988. Aeth nifer uchel o wartheg godro i'r lladd-dŷ yn y flwyddyn bresennol oherwydd effaith y cwotâu ar y diwydiant llaeth. Byddai'r allforio uchel iawn a fu ar loi yn ystod y flwyddyn bresennol yn ogystal â'r cwtogi ar y fuches laeth yn cyfrannu at leihad sylweddol yn y cynnyrch cartref.

Ychwanegodd Mr Hughes: "Bu'r Undeb felly yn pwyso am gynnydd yn y premiwm ar wartheg sugno. Oni chymerir cam sylweddol i atgyfnerthu'r fuches sugno, bydd prinder yn nifer y lloi i wneud iawn am y colledion presennol. Rhagwelir prinder cig eidion difrifol yn y wlad ymhen deunaw mis. Yn sicr mae'r sefyllfa bresennol, oni chyweirir hi, yn darogan prinder yn y dyfodol agos. Nid oes gennyf amheuaeth na fydd y Gwyddelod yn manteisio i'r eithaf ar y sefyllfa, ac o ganlyniad yn gwanhau safle gyffredinol y cynhyrchwyr cig eidion yn y wlad hon. Rwy'n hyderu y bydd i lywodraeth Prydain Fawr ragweld yr arwyddion o berygl sydd mor amlwg, gan weithredu i unioni'r cam cyn i'r diwydiant fynd i'r clawdd."

# HWYL A FFLAG

Cwmni Drama Cydweithredol yw HWYL A FFLAG gyda pholisi o gyflwyno dramau newydd safonol yn yr iaith Gymraeg, a'u perfformio yn mhrif ganolfannau a theatrau Cymru i gynulleidfa mor eang a phosbil. Yr ydym yn derbyn cymorthdal blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

Mae ein cartref yng Nghanolfan y Tabernacl, Bangor, lle mae'r ddau aelod cyflogedig, llawn amser yn rhedeg ein swyddfa. Y ddau yw: Iwan Llwyd Williams, (Gweinyddwr) ac Elwyn Williams (Swyddog Marchnata). Fodd bynnag pan fydd y cwmni yn gweithio ar gynhyrchiad mae hyd at ugain o staff yn gyflogedig am gyfnod o 6–10 wythnos.

Ein bwrdd llywio yw'r Pwyllgor Artistig sydd yn cynnwys aelodau a fu'n gweithio i'r cwmni yn y gorffennol. Fe gyfarfu'r corff yma yn gyson yn ystod y flwyddyn i benderfynu ar ein rhaglen gwaith. Ein bwriad rheoli a gweinyddu wedyn yw'r cnewyllyn sydd yn cynnwys y ddau aelod cyflogedig a chwe pherson arall a etholwyd gan y Pwyllgor Artistig.

Fe ffurfiwyd HWYL A FFLAG yn ystod haf 1981 ar gyfer perfformio drama yn Eisteddfod Machynlleth. Ers y cyfnod yma bu'r cwmni'n brysur yn perfformio dramau ledled Cymru yn rheolaidd gyda'r canlyniad bod y cwmni eisoes yn cyflwyno 3 sioe newydd bob blwyddyn – gan gynnwys Sioe Nadolig flynyddol. Bydd y Sioe Nadolig "CODI STEM" ar daith o gwmpas Cymru o fis Rhagfyr hyd fis Chwefror y flwyddyn nesaf.


**SIOP BAENT**
**STORFA TŶ NEWYDD**
BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA
BWCEDI
'HARDWARE'
AC ATI



**CRIB COCH**
**Y Sgwâr, Llanrug**
**Ffôn: Caernarfon 76772**
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
**Ffoniwch neu galwch i drefnu amser**



***W.J.GRIFFITH***
**PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG**
**PANT TIRION, LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3248**
**Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi**
CORGI
GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris Annedd Wen, Talybont. Caernarfo 76075.**

PLAID CYMRU CANGEN LLANRUG A'R CYLCH:
Daeth Mrs Eluned Nickson a'i phriod Dr. Paul Nickson i gyfarfod olaf y gangen a chawsom anerchiad a thrafodaeth addysgiadol ganddynt. Llongyfarchwn gadeirydd y gangen Miss Phyllis Ellis ar ei hethol yn Is-Drysorydd Cyngor Cenedlaethol Plaid Cymru. Cynhelir y Cinio Nadolig, Nos Fercher Rhagfyr 2il, yng ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Derbynnir enwau y rhai sydd am ynd gan yr Ysgrifenyddion ( Waunfawr 200 neu Caernarfon 5668).

YSGOL SUL CAPEL MAWR: Bydd gwasanaeth Nadolig y plant fore Sul Rhagfyr 13 am 10 o'r gloch. Bydd yr ymarfer ar gyfer hyn ar ddydd Mercher Tachwedd 25, dydd Mercher Rhagfyr 2 a dydd Mercher Rhagfyr 9 am 4 o'r gloch yn y festri. Apeliwn am bresenoldeb y plant yn yr ymarferiadau.

Cynhelir Te parti Nadolig i'r plant p'nawn Llun, Rhagfyr 21 am 3 hyd at 4.30 o'r gloch yn y festri. Derbynnir rhoddion o arian yn ddiolchgar gan yr athrawon neu'r arolygwr, at gostau'r te.

Yn Ffair NADOLIG Y Capel ar Nos Iau Rhagfyr 3 bydd rhai o'r plant hynaf yn gyfrifol am stondin amrywiol. Byddant yn falch o dderbyn unrhyw nwyddau at eu hymdrech.

CYMDETIHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Iau 12ed o Dachwedd gyda Mrs W. O. Roberts yn llywydd, a chroesawodd hi aelodau o Gymdetihas Lenyddol Bethel, a chafwyd noson o gwis dan ofal Mr Deiniol Hughes, Caeathro, cafwyd diolchiadau gan y Parch W.O. Roberts. Paratowyd paned gan Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd, Mrs M Lewis Madryn a Mrs J Parry, Tai Hermon, a diolchwyd iddynt gan Mr Alf Parry.

Cynhaliwyd cyfarfod arall o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Iau 29ain Hydref, gyda Mrs N Lovatt yn llywydd, cafwyd noson bleserus iawn yn gwrando ar Mrs I Butler, Haddef a Mr J W Owen, Llain Delyn yn sôn am eu hatgofion mebyd, a darllenodd Mrs Mair Humphreys, Rhoslan ei stori a enillodd y wobr gynta iddi yn yr Eisteddfod leol, diolchwyd iddynt gan Miss M Roberts, Ganllwyd. Paratowyd paned gan Mrs C Roberts, Mrs K Pritchard, Mrs M Williams Mrs I Butler a Mrs K Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs J Davies Rhyd y Delyn.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod Merched y Wawr, Nos Fawrth Tachwedd 10fed yn yr Ysgol Gynradd gyda Mrs Menna Williams yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd y Dr Dafydd Roberts, Pennaeth Amgueddfa Lechi Cymru a Llanberis, a chafwyd darlith ddiddorol iawn ganddo ar y "Diwydiant Llechi a'r Broydd Chwarelyddol" yn canolbwyntio ar fywyd cymdeithasol yr ardaloedd hyn pan oedd y diwydiant yma yn llewyrchus. Diolchwyd iddo gan Mrs Nansi Lovatt.

Rhoddwyd a darparwyd y baned gan Mrs Bethanne Williams a Miss Ann Humphreys, diolchwyd iddynt gan Mrs Meryl Green ac enillwyd y raffl gan Meryl hefyd. "Cinio Nadolig" fydd ein cyfarfod nesaf yn Gwêl y Llyn, Llanberis. Cost £7, a fuasai yr aelodau sy'n dymuno mynd yn dod â'u henwau i Joan Griffith, Pant Tirion erbyn Tachwedd 30ain.

DIOLCH: Dymuna Mrs Beryl Parry a theulu y diweddar William Samuel Parry, 1 Hafan Elan ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddagnoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhyddallt, Llanrug ar ei benodiad yn bennaeth Adran Cynllunio Telecom Prydeinig yng Ngogledd Cymru, cyn ei ddyrchafiad 'roedd yn Rheolwr Cynllunio Rhanbarthol gyda'r cwmni yng Ngwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Beryl Thomas ddiolch i'r Prifathro, y Dirprwy Brifathro, yr Athrawon, y rhieni a'r plant, ei chydweithwyr a'i ffrindiau am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad fel cynorthwywraig amser cinio yn yr Ysgol Gynradd. Diolch o galon i bawb gan Anti Beryl.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Beryl Parry, 1 Stad Hafan Elan ar farwolaeth ei phriod sef Mr William Samuel Parry yn ddiweddar. Hefyd fe gydymdeimlir â theulu y diweddar Mrs Margaret Williams Llys Meirion yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

BENDITH YR ŴYL: Gan nad yw Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, Llanrug yn anfon cardaiu Nadolig eleni, dymuna fendith yr ŵyl i bawb. Mae'n dymuno diolch hefyd i bobl yr ardal am eu caredigrwydd tuag ato yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arthur Jones, Hafan Elan ar ddathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar Dachwedd 14eg.

YN YR YSBYTY: Mae Gareth, mab Aled a Judy Roberts, Grugyll ar hyn o bryd yn Ysbyty Alder Hay yn Lerpwl. Gobeithiwn y caiff wellhad llwyr a buan.

LLONGYFARCHIADAU i Richard Williams, Y Berllan ar ennill ohono amryw o wobrwon am arddangosiad o Flodau Mihangel (Chrysanthemums) yn Sioe Penygroes ddydd Sadwrn. Enillodd Dylan a Carolyn wobrwyon yn adran y plant. Bu ei dŷ gwydr yn wledd i'r llygad.

MARWOLAETH: Yn dawel yn ei gartref "Bwthyn Buarthau" ar fore Sul Tachwedd 8ed, bu farw Mr Abram Jones yn 85 mlywdd oedd.

Roedd yn frodor o "Gallt Derw", Llanaelhaearn a bu'n ffermio yno am dros hanner canrif. Oherwydd gwaeledd, bedair mlynedd yn ôl gorfu iddo adael ei gartref, ac ymgartrefodd gyda'i ferch Ann a'i theulu ym Muarthau ers hynny. Gwnaeth fywyd newydd iddo'i hun yma ym Mro'r Eco ac fe'i gwelwyd yn wythnosol mewn Gornestau Chwist hyd a lled y fro – Llanberis, Penisarwaun a Chwm-y-glo, a gwnaeth lawer iawn o ffrindiau yno. Yn wir, yr oedd mewn Gornest Chwist nos Wener cyn ei farwolaerh – yng Nghlynnog Fawr.

Bu iddo fwynhau bywyd llawn iawn. Ei brif ddiddordeb ar ddechrau ei yrfa amaethyddol oedd hyfforddi cŵn defaid a bu'n gystadleydd rheolaidd mewn Ymsrysonfeydd. Roedd ganddo ddiddordeb mewn canu a bu'n aelod a wahanol gorau am ran helaeth o'i oes.

Gedy fab a merch a phump o wyresau. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Ann ag Irfon Thomas ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Mr Abram Jones, Buarthau. Diolch hefyd am y llu cardiau a rhoddion tuag ar Gronfa Ysgol Pendalar, Caernarfon.

**Y GYMDETIHAS UNDEBOL**

Nos Fawrth y 3ydd o Dachwedd, daeth rhai o ddisgyblion lleol Ysgol Brynrefail, ynghyd â'u hathrawes gerdd, Mrs Megan Roberts i ddifyru yr aelodau. Cafwyd eitemau unigol mewn canu, adrodd ac offerynau cerdd ynghyd a Tair sgets.

Llywydd y cyfarfod oedd y Parch John Morris B.D. a thalwyd diolch i'r plant gan Mrs J.Ll. Williams, Bod Fair.

Y 17eg o Dachwedd treuliwyd noson ddifyr iawn yn gwrando ar 5 o'r aelodau yn rhoi o'u hatgofion cynnar sef Mrs Iola Butler, Mrs Gwladys M Jones, Mrs Ceridwen Williams, Mrs Enid W. Thomas a Mr Emrys Owen. Mrs Mary Ll. Williams oedd yn llywyddu a thalwyd diolch i'r siaradwyr gan Y Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts.

MARWOLAETH: Yng nghartref Dwynfa, Bontnewydd, bu farw Mrs Margaret Williams gynt o Llys Meirion, Pontrhythallt. Bu ei hangladd ddydd Mawrth yr 17eg gyda gwasanaeth yng nghapel Pontrhythallt. Gwasnanaethpwyd gan y Parchedigion H Gwynfa Roberts a W.O. Roberts. Cydymdeimlir â'r ddau fab Mr Gwilym Eifion Williams a Mrs I Gwynedd Williams a'r teulu oll.




Brysiwch!
Archebwch eich
TWRCI
NADOLIG
a'ch
CYW IÂR
a PHOB MATH
O GIGOEDD
ERAILL
YN AWR
gan
Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!



*ELAINES — LLANRUG*

*NADOLIG LLAWEN*

*ODDI WRTH*
*Elaine*
*Wendy*
*Marsha*
*Linda*
*Vera*



*Mawrth i bensiynwyr.*
*Nos Fercher i ddynion.*
*Coluro ar gyfer adegau arbennig.*


*Mawrth 9.00 — 5.30*
*Mercher 9.00 — 8.00*
*Iau 9.00 — 8.00*
*Gwener 9.00 — 8.00*
*Gwener 9.00 — 8.00*
*Sadwrn 7.30 — 2.00*

*CAERNARFON 2023*

## Dyddiadur y Mis

### RHAGFYR

**Mawrth 1:** BETHEL: Capel y Cysegr: Noson Goffi.
PENISARWAUN: Yr Urdd: Addurniadau Nadolig.
DINORWIG: Eisteddfod Bentref
BANGOR: Cymdeithas Wyddonol Gwynedd:. Darlith yn Narlithfa'r Adran Addysg Coleg y Brifysgol 7.30 o'r gloch.
PONTRHYTHALLT: Cymdeithas Undebol: Arwel Jones.
**Mercher 2:** LLANRUG: Plaid Cymru: Cinio Nadolig.
CAEATHRO: Clwb Ger-y-Tân: Cinio Nadolig.
**Iau 3.** BETHEL: Yr Urdd: Ymweliad â Theatr Gwynedd.
LLANRUG: Capel Mawr: Ffair Nadolig.
BRYNREFAIL: Capel M.C. Ffair Nadolig.
**Gwener 4:** CWMYGLO: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon: Bingo yn y Ganolfan.
**Sul 6:** CAERNARFON: Côr Alawon Menai yn y Majestic. Teilwng yw'r Oen. 3.30 ac 8 o'r gloch.
**Llun 7.** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched. Cyfarfod Blynyddol
**Mawrth 8:** PENISARWAUN. Noson gyda Band Ieuenctid Deiniolen.
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched: Gŵyl Garolau.
LLANRUG: Merched y Wawr: Cinio Nadolig.
**Mercher 9:** PENISARWAUN Clwb y Merched a Chlwb yr Heulwen: Cinio Nadolig.
CWMYGLO: Gyrfa Chwist Nadolig yn y Ganolfan Gymuned.
WAUNFAWR: Yr Urdd: Canu Carolau gyda Dafydd Iwan.
**Iau 10:** WAUNFAWR Clwb Gwyrfai: Cinio Nadolig.
**Gwener 11:** LLANBERIS. Te yr Henoed.
**Sul 13:** LLANRUG: Capel Mawr: Gwasanaeth Nadolig y Plant gyda chasgliad arbennig at Apêl Sahel am 10 y bore.
**Llun 14:** CWMYGLO: Ysgol Feithrin: Noson Goffi yn y Ganolfan.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched: Cinio Nadolig.
**Mawrth 15:** PONTRHYTHALLT Cymdetihas Undebol: Siôn Humphreys, Tanycoed.
**Mercher 16:** BETHEL: Parti plant hynaf yr Ysgol Sul.
PENISARWAUN Yr Urdd. Parti Nadolig.
CWMYGLO: Cymdetihas Hanes Bro Eco'r Wyddfa 8 o'r gloch.
**Gwener 18:** PENISARWAUN: Pwyllgor Eisteddfod y Pentref: Canu carolau.
CAEATHRO: Parti Nadolig y Pentref yng Nglangwna.
**Sul 20:** CAEATHRO: Gwasanaeth Nadolig y Plant 5.30 o'r gloch.
**Llun 21:** LLANRUG: Capel Mawr: Te Parti'r Plant. 3.0 o'r gloch.
LLANBERIS: Lleng Brydeinig: Noson i Ferched.



**AR WERTH**

Pram doli. Lliw hufen a brown mewn cyflwr fel newydd. Yn Llanrug. Ffôn Caernarfon 5220

**NADOLIG LLAWEN**

**A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

**A DIOLCH AM BOB CEFNOGAETH**



***Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd***
***30 Gorffennaf —6 Awst 1988***
***Cystadleuaeth Tlws Dysgwr y Flwyddyn***

Bwriedir cynnal y gystadleuaeth arbennig hon fel rhan o weithgarwch Is-bwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn ystod 1988.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun y cynhaliwyd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn y tro diwethaf, a'r buddugol y tro hwnnw oedd Alan Whittick.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw ddysgwyr dros 21 mlwydd oed, nad oedd yn gallu cynnal sgwrs ar unrhyw lefel yn y Gymraeg dair blynedd yn ôl, ond sydd erbyn hyn yn siarad yn eithaf da.

I gystaldu, rhaid gyrru am ffurflen gais, ac yna, rhaid llunio llythyr, neu draethawd (tua 300 gair) yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

1. Gwybodaeth amdanoch chi eich hun – eich teulu a'ch diddordebau
2. Eich rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg
3. Sut mae'r Gymraeg wedi effeithio ar eich bywyd
4. Eich profiad yn dysgu'r Gymraeg
5. Eich gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Chwefror 22 1988, a chynhelir rowndiau rhanbarthol cyn y rownd genedlaethol ei hun a gynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Cynigir gwobr o Dlws a £150 i'r buddugol, ynghyd â gwobrau eraill i'r rhai a ddaw yn ail, trydydd a phedwerydd.

Ceir manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth:

J Idris Evans, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, Moderator Wharf, Rhodfa'r Brenin, Casnewydd, Gwent, NP9 1EX (0633) 54917

---

MAJESTIC, CAERNARFON

*Teilwng yw'r Oen*

(seiliedig ar "Y Meseia" gan Handel)

CÔR ALAWON MENAI

gyda

EIRLYS PARRI –
SIONED MAIR – Unawdwyr
CEFIN ROBERTS –
ARWEL JONES – Llefarydd

BIL EVANS
Arweinydd Côr a Cherddorfa

DYDD SUL, RHAGFYR 6ed

Prynhawn — 3·30 o'r gloch
Nos — 8·00 o'r gloch

PRIS: £3·00, Plant/Pensiynwyr: £2·00

Tocynnau ar werth: RECORDIAU COB, Bangor
SIOP Y PENTAN, Caernarfon
neu ffoniwch: Caernarfon 830405/5668

Elw i'w rannu rhwng: L.I.F.E. Cancer Centre; British Heart Foundation ac achosion da eraill

---

PLAID CYMRU

CANGEN

Deiniolen a'r Cylch

Cynhelir

CYFARFOD ARBENNIG

YNG NHWMNI

DAFYDD IWAN

Yn ystafell y SEINDORF

NOS FERCHER, RHAGFYR 16eg

CROESO CYNNES I BAWB.

Pris mynediad: 50c, 30c i blant

# CHWARAEON


## Menter Clwb Pêl-droed Llanberis

Fe wireddwyd un o freuddwydion Swyddogion Clwb Pêl-droed Llanberis y Sadwrn diwethaf gydag ymddangosiad eu Rhaglen Swyddogol gyntaf. Dosbarthwyd y llyfryn pedair tudalen ar hugain yn rhad ac am ddim i'r rhai a dalodd i'w gwylio yn erbyn Tref Dinbych ar gae Ffordd Padarn yng Nghwpan Sialens Gogledd Cymru. Bwriedir paratoi rhaglen o'r fath ar gyfer pob gêm gartref, y tîm cyntaf a'r ail, o hyn allan.

Llun y timau a hysbysebion yw cynnwys ugain o'r tudalennau, a bydd y rhain yn rhan o bob rhaglen. Fe gynhyrchir y pedair tudalen ganol yn wythnosol yn y pentref, ac ynddynt bydd enwau chwaraewyr y tîm cartref a'r ymwelwyr, portread o un o'r chwaraewyr lleol a nodiadau ynglŷn â chefndir yr ymwelwyr, a.y.y.b.

Gwilym Owen, Geraint Jones, Meirion Griffiths, Iwan Williams ac Elfed Morris sydd yn gyfrifol am gynhyrchu'r tudalennau hyn, ac os y byddant yn parhau i fod hanner mor ddiddorol â'r rhai yn y rhifyn cyntaf, bydd llawer ohonom yn disgwyl yn eiddgar am ein copi wythnosol.

Llongyfarchiadau calonnog i Lanber ar eu menter, mae'n syniad gwych, ac mae diwyg hollol broffesiynol i'r llyfryn. Aeth misoedd o waith i'r trefnu, ac i gasglu'r hysbysebion, ac fe hoffa'r pwyllgor ddiolch i'r rhai fu mor barod i'w cefnogi.




## Ysgol Brynrefail – Pêl-droed

Yn erbyn Ysgol David Hughes (gartref)
5ed flwyddyn: colli 4-1;
3ydd flwyddyn: cyfartal 2-2;
2il flwyddyn: ennill 4-3;
1af (Tîm A): ennill 7-2;
1af (Tîm B): colli 4-1

Yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen (gartref)
4ydd flwyddyn: ennill 3-1;
2il flwyddyn: colli 1-0;
1af (Tîm A): cyfartal 4-4;
1af (Tîm B): ennill 3-1.

**Bu dau o hogiau'r ysgol, sef Marc Williams o Lanberis a Kevin Davies o Lanrug, yn cynrychioli Ysgolion Arfon yn Aberystwyth yn erbyn tîm o'r ardal honno. Er mai colli o 4 gôl i 2 fu eu hanes, deallir fod y ddau wedi chwarae'n dda a bod Marc wedi sgorio un o goliau Arfon.**

**Cyn-ddisgybl yn dangos ei allu**

**Gyda phleser o'r mwyaf y nodir llwyddiant Malcolm Allen o Ddeiniolen y tymor hwn yn nhîm Watford, yn Adran Gyntaf Cynghrair Lloegr. Mae'n sgoriwr rheolaidd bellach, ac yn cadw ei le yn y tîm ar drael Luther Blissett, cyn ymosodwr tîm Lloegr. Fe'i gwelwyd ar y teledu yn ystod yr wythnos yn rhwydo'n fendigedig yn erbyn Dinas Manceinion, ac wythnos ynghynt ef a enwyd *'man of the match'* yn dilyn gêm gynghrair yn erbyn Charlton.**

**Da iawn Malcolm, dal ati, mae'r holl ardal yn ymfalchio yn dy lwyddiant.**

## PYSGOTA, Adroddiad H.P. Hughes

**Daeth tymor sgota arall i ben, a phleserus yw gweld cynifer o bysgod yn claddu, wrth gwrs, hyn sy'n holl bwysig i ddyfodol yr afon.**

**Ni ddaw y nifer cywir o bysgod a ddaliwyd eleni i law tan ddiwedd Chwefror, ond amcan-gyfrifir fod oddeutu 300 o eogiaid wedi dod i'r lan o'r Seiont, a chalonogol iawn oedd gweld fod nifer fawr o'r rhain wedi dod o'r darn o'r afon yn rhedeg o Benllyn hyd lyn Harri Parri yng ngwaelod Crawia.**

Yr eog trymaf o'r Seiont oedd un 22 a hanner pwys o'r pwll tro yng ngwaelod Crawia i Arthur Roberts o'r Wirral, a'r Sewin trymaf a glywais amdano oedd un 6 phwys a hanner i Alan Ginsberg o Fethel, o Lyn Tywod y codwyd hwn.

Y sewin mwyaf o holl ddyfroedd y Gymdeithas oedd un 15 pwys i Maurice Craig o Lanllyfni. Daeth y gwniedyn anferth yma o Afon Llyfni a chydag ychydig bwysau yn ychwanegol, byddai yn agos i'r record Brydeinig.

Roedd y tymor hefyd yn eithriadol o ran y brithyll brown a ddaliwyd, gyda Llyn Padarn yn profi ei fod yn dod yn ôl ato'i hun ar ôl gweithgareddau y Bwrdd Cynhyrchu Trydan. Trueni na fyddai mwy o'r aelodau yn cymeryd mantais o'r pysgota bendigedig sydd i'w gael gyda chwch arno. Y rhan fwyaf o'r nosweithiau y bum allan, y ni oedd yr unig gwch arno.

Ar ôl diwedd y tymor y daeth un o'r llifogydd mwyaf mewn cof, gyda difrod yn cael ei achosi i eiddo llawer o drigolion yr ardal, yn enwedig yng Nghwm y Glo.

Mae'n boen fawr i aelodau'r Gymdeithas glywed Chynghorwr lleol yn datgan fod yr eog yn bwysicach na phobl. Mae hyn yn beth afresymol i'w ddweud, oherwydd doedd gan lefel y Seiont ddim i'w wneud â'r difrod ac mae'n beth enllibus i ddatgan mai'r pysgotwyr sydd yn gwrthod gadael i'r Bwrdd Dŵr agor yr afon. Pe byddai y person yma yn holi fe fyddai yn deall fod y Gymdeithas wedi bod yn offerynol i gael gwneud gwaith glanhau ychydig yn ôl.

Yn fwy na dim yr oeddym yn siomedig ofnadwy o glywed ein bod yn cael ein barnu, heb fod wedi cael cyfle i drafod y mater. Pe byddai y broses yma wedi ei dilyn rydym yn hyderys na fyddai y feirniadaeth wedi ei gwneud.

Apêl cyn cloi. A wnaiff pob aelod wneud ymdrech arbennig i ddod i'r Pwyllgor Blynyddol yn yr Institiwt, Ffordd y Pafiliwn, Caernarfon am 7 o'r gloch, nos Iau, 10fed o Ragfyr, 1987.

**Hefyd fe hoffwn ddiolch i'r Draenog am y bigiad y mis diwethaf, gan ychwanegu – pan fyddaf i yn mynd i 'sgota, âf a genwair gyda mi – nid fel y tynnwr lluniau o'r Eco a aeth allan â'r camera – heb ffilm ynddi!**

**PENCAMPWYR YSGOL BRYNREFAIL DDOE A HEDDIW**

Yn dilyn sgwrs yn ystafell athrawon yr ysgol yn ddiweddar, aeth Mr Dic Parry, yr athro Ymarfer Corff ati i geisio llunio rhestr o'r rhai fu'n bencampwyr Cymru, neu a gynrychiolodd eu gwlad tra'n ddisgyblion neu ar ôl gadael yr ysgol.

Mae'n ymwybodol na cheir cofnod o'r rhai fu'n llwyddiannus tra'n ddisgyblion cyn 1960, ac yn amau'n gryf fod llawer mwy na'r rhai a enwir wedi llwyddo ar ôl gadael yr ysgol. Byddai'n ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth a fyddai'n ei alluogi i gwblhau'r rhestrau.

**PENCAMPWYR CYMRU A CHWARAEWYR RHYNGWLADOL (Disgyblion)**

*1959-60* **Eryl Hughes:** Pêl-droed Ieuenctid Cymru, dan 18 oed;
*1972-73* **Kevin Davies:** Pêl-droed Ysgolion Cymru, dan 15 oed;
*1971-72-73* **Kevin Davies:** Pencampwr Athletau Cymru, 100m a 200m
*1974-75* **Kevin Davies:** Tîm Athletau Ysgolion Cymru a Thîm Athletau Dynion Cymru (3 vest);
*1977* **David Evans:** Pêl-droed Ysgolion Cymru, dan 15 oed;
*1984-85* **Michael Roberts:** Pencampwr Athletau Cymru, Disgen a Phwysau;
*1984-85* **Steven Owen:** Pêl-droed Ysgolion Cymru, dan 18 oed;
*1984,85* **Gwynfryn Williams:** Pencampwr Ysgolion Cymru, Codi Pwysau;
*1985* **Christopher Jones:** Pencampwr Ysgolion Cymru, Codi Pwysau;
*1985,86* **Arwel E Jones:** Pencampwr Ysgolion Cymru a Phrydain, Codi Pwysau (dan 14 oed). Tîm Codi Pwysau Cymru dan 16 oed;
*1986* **Stuart Williams:** Criced Ysgolion Cymru, dan 16 oed;
*1986* **Paul Grant:** Eilydd Tîm Rhedeg Trawsgwlad Cymru, dan 17 oed;
*1987* **Arwel E Jones:** Pencampwr Codi Pwysau Ysgolion Cymru, dan 15 oed;
*1987* **Paul Grant** Tîm Athletau Ysgolion Cymru, 1500m (dros glwyd a ffos);
*1986,87* **Tîm Sgïo'r Ysgol** Pencampwyr Cymru a Lloegr;

**Y CYN-DDISGYBLION FU'N LLWYDDIANNUS YN Y BYD CHWARAEON**

*1969-70* **Irfon Thomas** Pêl-droed Amatur Cymru – 4 cap;
*1976* **Kevin Davies** Tîm Athletau Dynion Cymru;
*1983-85* **Malcolm Allen** Pêl-droed, Tîm Ieuenctid Cymru;
*1985* **Malcolm Allen** Arwyddo i Glwb Pêl-droed Adran Gyntaf (Watford) – Cap llawn yn erbyn Sawdi Arabia (mwy i ddod!);
*1985-86* **Timothy Lloyd** Tîm Sgïo Dynion Cymru.

Rhestr faith, a phob llongyfarchiadau i'r Ysgol ac hefyd i'r Clybiau lleol (yn enwedig y rhai codi pwysau) am roi'r cyfle i'r plant i feithrin eu doniau.

Byddwn yn ddiolchgar dros ben pe bai ein darllenwyr yn cysylltu â'r Golygydd Chwaraeon os oes unrhyw enw i'w ychwanegu ati.

## Pêl-droed Ieuenctid

Cyfle y mis hwn i daro llygaid ar ddau o dimau dan 14eg oed yr ardal, sef Llanrug a Llanberis, a welwyd ar gae Ysgol Brynrefail yn ystod y mis. Mewn gêm gyffrous iawn, bu Llanrug yn fuddugol o 9 gôl i 2.

Gobeithir cynnwys lluniau bob un o'r timau ieuenctid ar dudalen ôl yr Eco cyn diwedd y tymor.



Carfan Llanrug yw Marc White, Scot Davies, Sion Roberts, Gareth Davies, Iolo Roberts, Kevin Tame, Dyfed Whiteside Thomas, Gareth Parry, Aled Griffiths, Kevin Wyn Williams, Huw Humphreys, Dyfan Evans, Jonathan Richardson, Bryn Jones, Alan Jordan, Bedwyr Evans a Meical Owen. Dafydd Owen yw'r rheolwr.



Yn cynrychioli Llanberis mae Anthony Roberts, Arfon Owen, Steven Nisbett, Edward Rogers, Shane Price, Derfel Owen, Llifon Foulkes, Colin Griffiths, Eilian Roberts, Ian Hughes, Steven Edwards, Kevin Edwards, Geraint Evans, Jason Jones, Steven Bayliss, Alun Bayliss a Dylan Davies. Emlyn Hughes sy'n eu rheoli.